



Dogfen gyngor: Canllaw ar baratoi a diwygio cynlluniau iaith Gymraeg

Medi 2026

Cynnwys

1	Cefndir	1
	Pwrrpas y Canllaw	1
	Disgwyliadau'r Comisiynydd	1
	Cefndir Polisi a Deddfwriaethol	2
	Egwyddorion Craidd	2
2	Effaith Polisi a Chyflwyno Mentrau Newydd	3
	Asesu Effaith leithyddol	3
	Datblygu a chynnal gwasanaethau Cymraeg	4
3	Delio â'r cyhoedd sy'n siarad Cymraeg	5
	Gohebiaeth	5
	Cofnodi a defnyddio data dewis iaith	6
	Gwasanaethau Ffôn	7
	Cyfarfodydd a Digwyddiadau Cyhoeddus	8
	Cyfarfodydd gydag unigolyn (wyneb-yn-wyneb/ rhithiol)	8
	Cyfarfodydd sy'n agored i'r cyhoedd	9
	Derbynfa	10
	Delio â'r cyhoedd mewn ffyrdd eraill	11
4	Wyneb Cyhoeddus	12
	Hunaniaeth Gorfforaethol	12
	Arwyddion	14
	Gwefannau, Apiau a Chyfryngau Cymdeithasol	15
	Cyfryngau cymdeithasol	16
	Apiau	17
	Technolegau newydd a'r defnydd o Ddeallusrwydd Artiffisial	18
	Dogfennau a Ffurflenni	19
	Deunydd cyhoeddusrwydd, marchnata ac amlgyfrwng	20
	Fideos a Chynnwys Fideo	21
	Hysbysiadau i'r Wasg a Hysbysiadau Swyddogol	22
	Systemau annerch cyhoeddus	23
	Peiriannau Hunanwasanaeth	24
5	Gweithlu a Sgiliau Cymraeg	26
	Recriwtio a Chynllunio'r Gweithlu	26
	Datblygu a Chynnal Sgiliau Cymraeg	27
	Cefnogi Defnydd o'r Gymraeg yn y Gweithle	28
	Hyfforddiant a Datblygu Staff	28
6	Gweithredu a monitro'r Cynllun Iaith	30
	Mewnwyd a Chyfathrebu Mewnol	30
	Trefniadau gweinyddol i weithredu'r cynllun iaith	31
	Trefniadau Cyfieithu	32
	Gweithio mewn Partneriaeth a Chaffael	33
	Cyhoeddusrwydd i'r cynllun iaith	34
	Cynllun gweithredu	34
	Monitro, Adrodd ac Adolygu'r Cynllun Iaith	36
	Cwynion, Sylwadau ac Awgrymiadau	38
7	Casgliad	39
8	Atodiadau	40

1 Cefndir

Mae'r canllaw hwn yn ddogfen arweiniol i gyrff sydd â Chynlluniau Iaith Gymraeg o dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993. Nid yw'n disodli'r gyfraith nac yn gosod Safonau'r Gymraeg, ond yn amlinellu'r hyn a ddisgwylir fel isafswm ar gyfer cynlluniau iaith newydd neu ddiwygiedig.

Pwrpas y Canllaw

Bwriad y canllaw yw cynorthwyo cyrff drwy'r broses o baratoi a diwygio cynlluniau iaith Gymraeg i:

- Ddeall gofynion statudol wrth baratoi cynllun iaith Gymraeg newydd neu ddiwygio cynllun presennol;
- Sicrhau a gwella cysondeb mewn gwasanaethau cyhoeddus a ddarperir yn Gymraeg;
- Lunio ymrwymadau iaith clir, ymarferol a mesuradwy sy'n adlewyrchu gallu a chyddestun gweithredol y sefydliad;
- Osod sylfaen gadarn ar gyfer trosglwyddo posib i weithredu o dan gyfundrefn Safonau'r Gymraeg yn unol â Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 pan, ac os yn berthnasol.

Mae'r canllaw hwn yn cynnig syniadau ymarferol ynghylch sut i gwrdd â gofynion Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 o safbwynt paratoi a gweithredu cynlluniau iaith a hybu defnydd o wasanaethau Cymraeg. Anogir sefydliadau i fabwysiadu'r arferion da a drafodir wrth gynnig a hyrwyddo eu gwasanaethau Cymraeg i'r graddau y bo'n briodol o dan yr amgylchiadau ac yn rhesymol ymarferol.

Nid yw'r canllaw hwn yn disodli'r [cyngor statudol ar baratoi cynlluniau iaith Gymraeg](#), ond yn amlinellu'r hyn a ddisgwylir mewn cynlluniau iaith i sicrhau eu bod yn adlewyrchu natur a dulliau cyfredol o ddarparu gwasanaethau cyhoeddus heddiw.

Disgwyliadau'r Comisiynydd wrth dderbyn a chymeradwyo cynlluniau iaith newydd a diwygiedig

Mae'r Comisiynydd yn cydnabod bod sefydliadau sy'n gweithredu cynlluniau iaith, a'r cynlluniau eu hunain, yn amrywio'n sylweddol o ran eu cwrpas a'u hymrwymadau. Yn ystod y broses ddrafftio a chymeradwyo, bydd y Comisiynydd yn rhoi sylw i natur, maint a gweithgareddau'r sefydliad, ei berthynas â'r cyhoedd, yr ymrwymadau a wnaed mewn cynlluniau blaenorol a'i gapasiti i ehangu ei ddarpariaeth Gymraeg. Dylid felly ystyried y canllaw hwn yng nghyd-destun amgylchiadau unigol pob sefydliad ac ar sail yr hyn sy'n briodol o dan yr amgylchiadau ac yn rhesymol ymarferol.

Fodd bynnag, mae'r Comisiynydd yn disgwyl i gynlluniau iaith adlewyrchu ymrwymiad i gynydd parhaus, drwy nodi mesurau realistig a chyraeddadwy i gryfhau a chynyddu'r ddarpariaeth a'r defnydd o'r Gymraeg dros amser.

Cefndir Polisi a Deddfwriaethol

Wrth baratoi neu ddiwygio cynllun iaith, dylai sefydliadau fod yn ymwybodol o'r canlynol:

Parhad cyfreithiol: Mae cynlluniau iaith yn parhau'n fecanwaith dilys sy'n gosod gofyniad cyfreithiol ar sefydliadau nad ydynt eto yn ddarostyngedig i'r gyfundrefn safonau'r Gymraeg.

Disgwyliadau: Mae'r argymhellion a nodir yn y canllaw hwn yn cynrychioli'r hyn a ddisgwylir fel ymrwymïadau i ddarparu gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru wrth gyflwyno cynllun iaith newydd neu ddiwygio cynllun presennol.

Cyfeiriad polisi: Mae disgwyliad polisi clir bod cynlluniau iaith yn cynnwys ymrwymïadau cadarn i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus Cymraeg sydd yn gyfoes ac yn sicrhau bod y Gymraeg a'r Saesneg yn cael eu trin yn gyfartal wrth ddarparu'r gwasanaethau hynny.

Egwyddorion Craidd

Dylai pob cynllun iaith gadw at yr egwyddorion craidd canlynol:

Egwyddor	Ystyr Ymarferol
Cydraddoldeb	Trin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal – mewn ansawdd, amseru ac argaeledd.
Rhagweithiol	Nid darparu gwasanaethau Cymraeg ar gais yn unig – cynnig yn hyderus, yn barod, o'r cychwyn.
Eglurder	Datganiadau ac ymrwymïadau pendant a diamwys. Dylid osgoi cymalau amwys.
Realistig	Adlewyrchu realiti gweithredol, ond heb danseilio'r nod o welliant parhaus.
Mesuradwy	Gallu dangos cynnydd dros amser drwy gynllun gweithredu a mesurau monitro clir.

Mae'r egwyddorion hyn yn adlewyrchu'r symudiad polisi ehangach tuag at normaleiddio'r defnydd o'r Gymraeg mewn bywyd bob dydd, ac i greu Cymru lle gall pobl fyw eu bywydau drwy gyfrwng y Gymraeg.

2 Effaith polisi a chyflwyno mentrau newydd

Mae'n hanfodol bod y Gymraeg yn cael ei hystyried yn systematig wrth lunio polisïau ac addasu neu fabwysiadu unrhyw bolisïau newydd. Dylai sefydliadau integreiddio ystyriaethau ieithyddol i'w prosesau gwneud penderfyniadau arferol.

Dylai polisïau a mentrau newydd fod yn gyson â'r mesurau sydd yn y cynllun a dylent hyrwyddo a hwyluso defnyddio'r Gymraeg. Wrth lunio neu adolygu polisïau neu fentrau, dylai sefydliadau ystyried ac asesu'r effaith posib ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg. Dylid hefyd ystyried sut gellir eu datblygu er mwyn hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg a sut y gellir osgoi neu liniaru unrhyw effeithiau negyddol ar y cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg.

Dylai sefydliadau sicrhau bod staff ac ymgynghorwyr sy'n gweithio ar lunio polisïau yn ymwybodol o'u cynllun, ac yn talu sylw iddo. Mae'r ystyriaethau hyn yn berthnasol hefyd i sefydliadau sy'n ymarfer swyddogaethau statudol fydd yn dylanwadu ar weithgareddau sefydliadau eraill, megis personau eraill sy'n gweithredu fel gwas neu asiant i'r Goron neu gyrff cyhoeddus eraill.

Wrth fabwysiadu neu adolygu polisïau, dylai sefydliadau integreiddio ystyriaethau ieithyddol i'w prosesau gwneud penderfyniadau arferol. Byddai hyn yn cynnwys asesu effeithiau posibl polisi newydd ar gyfleoedd defnyddwyr gwasanaeth i ddefnyddio'r Gymraeg.

Asesu Effaith Ieithyddol

Mae'n hanfodol bod effaith polisïau, strategaethau, cynlluniau a mentrau ar y Gymraeg yn cael ei hystyried yn gynnar ac yn systematig fel rhan annatod o'r broses ddatblygu a gwneud penderfyniadau. Rhaid rhoi ystyriaeth gydwybodol i'r effeithiau posib ar y Gymraeg wrth lunio, adolygu, diwygio neu fabwysiadu polisïau a mentrau newydd, gan sicrhau bod y Gymraeg a'r Saesneg yn cael eu trin yn gyfartal.

Dylai sefydliadau:

- sefydlu trefniant ffurfiol ar gyfer cynnal Asesiadau Effaith Ieithyddol fel rhan o'u trefniadau llywodraethu a gwneud penderfyniadau;
 - darparu canllawiau, hyfforddiant a thempledi safonol i staff er mwyn sicrhau cysondeb ac ansawdd yr asesiadau;
 - sicrhau bod yr asesiad yn ystyried effeithiau cadarnhaol, negyddol a niwtral, ynghyd â chamau i liniaru effeithiau andwyol a chynyddu cyfleoedd i hyrwyddo'r Gymraeg;
 - sefydlu prosesau priodol i graffu ar yr asesiadau a monitro'r effeithiau wrth i bolisïau gael eu gweithredu;
 - sicrhau bod cyfrifoldeb ac atebolrwydd clir am y broses ar lefel uwch o'r sefydliad;
 - sicrhau bod canlyniadau'r asesiadau'n cael eu hystyried yn ystyrllon ac yn llywio'r penderfyniad terfynol;
 - cadw cofnod clir o'r ystyriaeth a roddwyd i'r Gymraeg a'r modd y defnyddiwyd canfyddiadau'r asesiad wrth lunio'r penderfyniad.
-

Dylai Cynllun Iaith gynnwys:

- ymrwymiad i gynnal Asesiad Effaith leithyddol ar gyfer polisïau, strategaethau a mentrau newydd neu rai sy'n cael eu hadolygu;
- ymrwymiad i sicrhau bod effeithiau ar y Gymraeg yn cael eu hystyried yn gynnar yn y broses ddatblygu polisi ac nid ar ddiwedd y broses yn unig;
- ymrwymiad y bydd polisïau a mentrau newydd:
 - yn hyrwyddo a hwyluso defnyddio'r Gymraeg;
 - yn cyfrannu at gynyddu cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg lle bo hynny'n briodol;
 - yn symud y sefydliad yn nes at wireddu'r egwyddor o gydraddoldeb rhwng y Gymraeg a'r Saesneg;
- ymrwymiad i sicrhau bod polisïau a mentrau newydd yn gyson â'r Cynllun Iaith ac nad ydynt yn ei danseilio;
- ymrwymiad i sicrhau bod staff ac ymgynghorwyr sy'n ymwneud â datblygu polisïau yn ymwybodol o'r Cynllun Iaith ac o gyfrifoldebau'r sefydliad mewn perthynas â'r Gymraeg;
- ymrwymiad i sicrhau bod mesurau'r Cynllun Iaith yn cael eu gweithredu wrth roi polisïau a mentrau newydd ar waith;
- ymrwymiad i ymgynghori â Chomisiynydd y Gymraeg pan fo cynigion yn debygol o gael effaith ar y Gymraeg neu ar weithrediad y cynllun iaith;
- ymrwymiad i gyhoeddi neu wneud ar gael, lle bo'n briodol, grynoded o ganfyddiadau Asesiadau Effaith leithyddol er mwyn hyrwyddo tryloywder ac atebolrwydd.
- disgrifiad o'r trefniadau ar gyfer gweithredu, monitro ac adolygu'r ymrwymïadau hyn.

Am arweiniad pellach ar gynnal asesiad o effaith penderfyniadau polisi ar y Gymraeg, dylid cyfeirio at gyngor swyddogol y Comisiynydd ar y safonau llunio polisi [yma](#). Er bod y cyngor hwn yn ymwneud â Safonau'r Gymraeg, mae'r un egwyddorion yn berthnasol i gyrrff sydd yn gweithredu cynlluniau iaith Gymraeg .

Datblygu a chynnal gwasanaethau Cymraeg

Dylai'r cynllun bennu sut y mae'r sefydliad yn bwriadu darparu'r gwasanaethau penodol y mae'n gyfrifol amdanynt, drwy gyfrwng y Gymraeg. Fel rhan o hyn, dylai ddisgrifio sut mae'n bwriadu cynllunio a threfnu ei wasanaethau er mwyn cymryd anghenion siaradwyr Cymraeg i ystyriaeth.

Nid yw'r disgwyliad yn gyfyngedig i gynnal darpariaeth bresennol yn unig - disgwylir i gyrrff ddatblygu eu gwasanaethau Cymraeg yn weithredol ac yn strategol, drwy:

- Gynllunio darpariaeth Gymraeg fel rhan annatod o bob gwasanaeth newydd neu ddiwygiedig;
- Sicrhau bod rhyngwyneb Cymraeg ar gael o lansiad cyntaf unrhyw wasanaeth digidol newydd;
- Buddsoddi mewn capasiti sefydliadol – datblygu sgiliau Cymraeg ymhlith staff;
- Mabwysiadu systemau technolegol sy'n cefnogi gweithredu dwyieithog.

Mae'r egwyddor o drin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal yn berthnasol nid yn unig i argaeledd gwasanaethau, ond hefyd i'w hansawdd, eu hamseriad a'u hygyrchedd. Dylai defnyddiwr fedru cael yr un profiad wrth ddefnyddio gwasanaeth Cymraeg ag y byddai'n ei gael yn Saesneg.

Beth sy'n annerbyniol	Beth sy'n dda
Cyhoeddi fersiwn Saesneg cyn bod y fersiwn Gymraeg yn barod i'w chyhoeddi.	Sefydlu gweithdrefn sy'n sicrhau bod deunyddiau yn barod yn y ddwy iaith cyn cyhoeddi.
Gwefan Gymraeg sydd ddim yn cael ei diweddarau mor aml â'r Saesneg.	Briff golygyddol sy'n pennu cyfrifoldeb clir am y cynnwys Cymraeg.
Ateb e-bost Cymraeg yn Saesneg 'er hwylustod'.	Ymateb yn Gymraeg bob amser i ohebiaeth Gymraeg.

Dylai cynllun iaith gynnwys:

- Ymrwymiad y sefydliad i gyflwyno gwasanaeth mor safonol yn Gymraeg ag yn Saesneg.
- Ymrwymiad i ddatgan hyn yn gyhoeddus a disgrifiad o ble a sut y gwneir y datganiad hwn.
- Ymrwymiad i osod safonau penodol ynglŷn â defnyddio'r Gymraeg wrth ddarparu gwasanaeth a delio â'r cyhoedd.
- Ymrwymiad i arolygu'r safonau hynny, yn ogystal ag arolygu eu gweithredu.
- Ymrwymiad i sicrhau cysondeb safon y gwasanaethau yn Gymraeg a ddarperir gan y sefydliad mewn gwahanol ardaloedd a thrwy ddulliau a phlatformau gwahanol.

3 Delio â'r cyhoedd sy'n siarad Cymraeg

Mae profiad cyntaf y defnyddiwr yn hanfodol wrth feithrin hyder i ddefnyddio'r Gymraeg. Disgwylir i gyrff fabwysiadu dull rhagweithiol o gynnig gwasanaethau Cymraeg, yn hytrach na dibynnu ar ddefnyddwyr i ofyn amdanynt.

Gohebiaeth

Mae gohebu'n elfen hanfodol o'r ffordd y mae sefydliadau'n delio â phobl. Ni ddylai fod gwahaniaeth rhwng amseroedd ymateb i ohebiaeth Gymraeg a Saesneg. Dylid sicrhau bod trefniadau clir ar waith ar gyfer trin gohebiaeth Gymraeg, gan gynnwys cyfarwyddiadau penodol i staff perthnasol.

Dylai cynllun iaith gynnwys:

- Ymrwymiad i groesawu gohebiaeth yn Gymraeg a Saesneg a'u trin yn gyfartal;
- Ymrwymiad i sicrhau na fydd gohebu drwy gyfrwng y Gymraeg ynddo'i hun yn arwain at oedi.
- Ymrwymiad y bydd pob gohebiaeth (e.e. llythyrau, e-byst ayb) a dderbynnir yn Gymraeg yn cael ateb yn Gymraeg;
- Ymrwymiad y bydd gohebiaeth yn dechrau yn Gymraeg ar ôl cyswllt ar lafar yn Gymraeg neu lle bo dewis hysbys am ohebiaeth yn Gymraeg;

- Ymrwymiad i ddarparu fersiynau Cymraeg o ohebiaeth dorfol ar yr un pryd â'r Saesneg;
- Ymrwymiad i drin y ddwy iaith yn gyfartal o ran cynnwys, ansawdd, statws, fformat ac amseru ym mhob gohebiaeth;
- Ymrwymiad i ddatgan mewn gohebiaeth bod y sefydliad yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg, y byddwch yn ateb gohebiaeth yn Gymraeg ac na fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi;
- Disgrifiad o'r trefniadau a wneir yn unol â'r cyngor uchod, fel bod yr ymrwymïadau gohebu hyn yn cael eu gweithredu. Er enghraifft:-
 - rhoi canllawiau i staff;
 - hyfforddi staff ar ofynion y cynllun iaith mewn perthynas â gohebu â'r cyhoedd;
 - gwneud trefniadau gwasanaeth cyfieithu;
 - sefydlu cronfeydd data o'r rheiny sy'n dymuno delio yn Gymraeg â'r sefydliad.

Sut i'w ymgorffori yn y cynllun?

- Diffinio proses glir ar gyfer adnabod dewis iaith;
- Nodi'n benodol nad yw gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi;

Enghraifft o ddatganiad ar ohebu ar gyfer y cynllun iaith:

"Mae croeso i chi ohebu â ni yn Gymraeg. Byddwn yn ateb yn Gymraeg ac yn sicrhau nad yw gohebu yn Gymraeg yn arwain at unrhyw oedi."

Dylid hefyd mabwysiadu dull rhagweithiol i groesawu gohebiaeth yn Gymraeg.



Ysgrifennwch ataf yn Gymraeg neu Saesneg
Please write to me in Welsh or English

Cofnodi a defnyddio data dewis iaith

Mae gallu sefydliad i ddarparu gwasanaethau Cymraeg yn effeithiol yn dibynnu ar ei allu i adnabod a chofnodi dewis iaith defnyddwyr. Dylai sefydliadau gasglu, cofnodi a defnyddio gwybodaeth am ddewis iaith er mwyn gallu darparu gwasanaethau yn Gymraeg heb fod angen i ddefnyddwyr ailadrodd eu dewis ar bob achlysur. Dylid defnyddio gwybodaeth am ddewis iaith i hwyluso mynediad at wasanaethau ac i gyfrannu at drin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal.

Dylai sefydliadau:

- roi cyfle i ddefnyddwyr nodi eu dewis iaith wrth gysylltu â'r sefydliad;
- gofnodi dewis iaith defnyddwyr mewn systemau a chronfeydd data perthnasol;
- ddefnyddio'r wybodaeth honno wrth ddarparu gwasanaethau, gohebiaeth a chyfathrebiadau;
- sicrhau bod defnyddwyr yn gallu newid eu dewis iaith yn hawdd;

- adolygu a diweddarau gwybodaeth am ddewis iaith yn briodol;
- sicrhau bod trefniadau ar gyfer casglu a storio gwybodaeth yn cydymffurfio â gofynion diogelu data;
- ddefnyddio gwybodaeth am ddewis iaith i gynllunio a gwella gwasanaethau Cymraeg.

Gall sefydliadau ddefnyddio'r data i:

- anfon gohebiaeth yn Gymraeg yn awtomatig i ddefnyddwyr sydd wedi nodi mai Cymraeg yw eu dewis iaith;
- sicrhau bod gwahoddiadau, hysbysiadau a diweddariadau yn cael eu darparu yn yr iaith a ffafrir;
- drefnu cyfarfodydd, digwyddiadau neu ymgynghoriadau;
- lwyio cynllunio gwasanaethau a gweithgareddau hyrwyddo.

Dylai cynllun iaith gynnwys:

- Ymrwymiad i roi cyfle i ddefnyddwyr nodi eu dewis iaith;
- Ymrwymiad i gofnodi a defnyddio gwybodaeth am ddewis iaith er mwyn darparu gwasanaethau yn yr iaith a ffafrir gan y defnyddiwr;
- Ymrwymiad i sicrhau bod defnyddwyr yn gallu newid eu dewis iaith yn hawdd;
- Ymrwymiad i ddefnyddio gwybodaeth am ddewis iaith i wella a chynllunio gwasanaethau Cymraeg;
- Disgrifiad o'r trefniadau a ddefnyddir i gasglu, storio, diweddarau a defnyddio gwybodaeth am ddewis iaith.

Gwasanaethau Ffôn

Dylid croesawu galwadau ffôn yn Gymraeg yn rhagweithiol. Dylid cyfarch yr unigolyn yn Gymraeg, a gwneud yn glir fod croeso iddynt ddefnyddio'r Gymraeg. Drwy gynnig dewis iaith yn glir ar ddechrau'r alwad bydd hyn yn rhoi sicrwydd a hyder i'r sawl sy'n galw.

Bydd angen sicrhau bod trefniadau ar waith i drosglwyddo galwadau i siaradwr Cymraeg, neu i drefnu cefnogaeth briodol os nad yw'r sawl sy'n ateb yr alwad yn medru siarad Cymraeg. Dylid hyfforddi staff i ddefnyddio cyfarchiad Cymraeg i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg.

Dylai cynllun iaith gynnwys:

- Ymrwymiad i ddatgan yn glir bod y sefydliad yn croesawu galwadau yn Gymraeg wrth hysbysebu unrhyw rifau ffôn cyswllt;
- Ymrwymiad i gyfarch galwadau ffôn yn Gymraeg ar bob prif rif cyswllt;
- Ymrwymiad i ddarparu cyfarchiad a negeseuon ar systemau awtomatig yn Gymraeg;
- Ymrwymiad i gynnig trosglwyddo'r alwad i siaradwr Cymraeg, neu drefnu galwad yn ôl os nad oes siaradwr Cymraeg ar gael;
- Ymrwymiad i drin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal wrth hysbysebu rhifau ffôn.
- Disgrifiad o'r trefniadau mewn lle gan y sefydliad i allu delio â galwadau Cymraeg yn effeithiol gan gynnwys:
 - rhoi canllawiau i staff;

- hyfforddi staff ar ofynion y cynllun iaith mewn perthynas â galwadau ffôn;
- gwneud trefniadau rota ac amserlennu staff i sicrhau bod siaradwyr Cymraeg ar gael i dderbyn galwadau ffôn yn Gymraeg;
- sefydlu cronfeydd data o'r rheiny sy'n dymuno delio yn Gymraeg â'r sefydliad.
- Cynnwys amserlen weithredu yn y cynllun os nad yw pob elfen o'r ymrwymiad ar waith eto.

Sefyllfa	Enghraifft o neges dda
Peiriant ateb	"Gallwch adael neges yn Gymraeg. Byddwn yn sicrhau na fydd hyn yn arwain at unrhyw oedi."
Cyfarchiad awtomatig	"I gael gwasanaeth Cymraeg, pwyswch 1. For English, press 2."
Trosglwyddo	"Rwy'n eich trosglwyddo i gydweithiwr sy'n gallu delio â'ch ymholiad yn Gymraeg – arhoswch ar y linell."
Dim siaradwr Cymraeg ar gael	"Nid oes siaradwr Cymraeg ar gael ar hyn o bryd – hoffech chi i rywun eich ffonio'n ôl?"

Cyfarfodydd a Digwyddiadau Cyhoeddus

Mae cyfarfodydd a digwyddiadau yn gyfleoedd pwysig i unigolion ddefnyddio'r Gymraeg wrth ymgysylltu â'r sefydliad. Dylai sefydliadau sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei thrin yn gyfartal â'r Saesneg o fewn trefniadau cyfarfodydd a digwyddiadau a'u bod yn galluogi unigolion i ddefnyddio'r Gymraeg o fewn y digwyddiadau hynny.

Cyfarfodydd gydag unigolyn (wyneb-yn-wyneb/ rhithiol)

Pan wahoddir unigolyn i gyfarfod (wyneb yn wyneb neu'n rhithiol) dylai sefydliadau:

- roi gwybod bod croeso i'r unigolyn ddefnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod hwnnw;
- rhoi cyfle i'r unigolyn nodi ei ddewis iaith wrth drefnu'r cyfarfod;
- gwneud pob ymdrech resymol i sicrhau bod aelod o staff sy'n gallu cynnal y cyfarfod yn Gymraeg ar gael lle bo'r unigolyn yn dymuno defnyddio'r Gymraeg;
- sicrhau y gellir cynnal y cyfarfod yn Gymraeg os mai dyna yw dewis iaith yr unigolyn;
- sicrhau bod unrhyw ddeunyddiau megis gwahoddiadau, agendâu a phapurau cysylltiedig yn ei gwneud yn glir fod croeso defnyddio'r Gymraeg;
- sicrhau bod unrhyw ohebiaeth neu ddeunyddiau dilynol sy'n deillio o'r cyfarfod yn cael eu darparu yn Gymraeg os mai Cymraeg yw dewis iaith yr unigolyn;

Os nad oes aelod o staff cymwys sy'n gallu cynnal y cyfarfod yn Gymraeg ar gael dylai sefydliadau:

- gynnig trefniant amgen priodol, megis aelod o staff Cymraeg mewn lleoliad arall neu drwy alwad ffôn neu fideo;
- ddarparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd er mwyn galluogi'r unigolyn i ddefnyddio'r Gymraeg;
- sicrhau nad yw'r trefniadau ar gyfer defnyddio'r Gymraeg yn rhoi'r unigolyn / unigolion o dan anfantais.

Cyfarfodydd sy'n agored i'r cyhoedd

Pan fydd sefydliad yn trefnu cyfarfod yng Nghymru sy'n agored i'r cyhoedd ac sy'n caniatáu cyfranogiad gan aelodau o'r cyhoedd, dylai sefydliadau:

- galluogi unigolion i gymryd rhan yn Gymraeg ac i ddefnyddio'r Gymraeg wrth gyfrannu yn y cyfarfod;
- rhoi gwybod yn glir i fynychwyr bod croeso iddynt ddefnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod;
- sicrhau bod gwahoddiadau, hysbysiadau a deunyddiau hyrwyddo ar gael yn Gymraeg;
- ystyried anghenion ieithyddol tebygol y gynulleidfa wrth gynllunio a threfnu'r cyfarfod;
- darparu gwasanaethau cyfieithu ar y pryd lle bo angen er mwyn hwyluso defnydd o'r Gymraeg ac i sicrhau y gall mynychwyr ddeall cyfraniadau a wneir yn y Gymraeg;
- rhoi cyfle i fynychwyr roi gwybod ymlaen llaw os ydynt yn dymuno cyfrannu yn Gymraeg, er mwyn galluogi trefniadau priodol i gael eu gwneud;
- sicrhau bod cadeirydd y cyfarfod yn hysbysu'r mynychwyr am unrhyw drefniadau ieithyddol sydd ar gael ac yn annog defnyddio'r Gymraeg;
- sicrhau bod unrhyw ddeunyddiau megis agendâu, cyflwyniadau, cofnodion a phapurau cysylltiedig eraill ar gael yn Gymraeg;
- sicrhau bod unrhyw ddeunydd a gaiff ei arddangos neu ei ddosbarthu yn y cyfarfod ar gael yn Gymraeg a bod y Gymraeg yn cael ei thrin yn gyfartal â'r Saesneg ar y deunyddiau hynny;
- sicrhau, lle bo hynny'n ymarferol, fod aelodau o staff sy'n gallu cyfathrebu yn Gymraeg yn bresennol yn y cyfarfod;
- sicrhau nad yw'r trefniadau ar gyfer defnyddio'r Gymraeg yn creu rhwystrau i gyfranogi.

Bydd disgwyl i'r sefydliad asesu'r materion isod wrth drefnu cyfarfod cyhoeddus:

Ffactor	Ystyriaethau
Lleoliad y digwyddiad	A yw'r ardal yn un lle mae canran uchel o siaradwyr Cymraeg?
Y gynulleidfa debygol	A oes rheswm i dybio y bydd nifer o siaradwyr Cymraeg yn bresennol?
Y pwnc dan sylw	A yw'r pwnc yn uniongyrchol berthnasol i siaradwyr Cymraeg?
Gwybodaeth a gyflwynwyd ymlaen llaw	A yw unigolion penodol eisoes wedi nodi eu bod am ddefnyddio'r Gymraeg?

Dylai cynllun iaith gynnwys:

- Ymrwymiad i roi gwybod i unigolion sy'n cael eu gwahodd i gyfarfodydd unigol eu bod yn cael defnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod hwnnw.
- Ymrwymiad i wneud trefniadau priodol er mwyn galluogi unigolion i ddefnyddio'r Gymraeg mewn cyfarfodydd wyneb yn wyneb neu gyfarfodydd rhithiol.
- Ymrwymiad i sicrhau bod unrhyw ddeunyddiau sy'n ymwneud â chyfarfodydd unigol yn ei gwneud yn glir fod croeso i ddefnyddio'r Gymraeg.

- Ymrwymiad i alluogi cyfranogiad yn Gymraeg mewn cyfarfodydd a digwyddiadau cyhoeddus a gynhelir yng Nghymru.
- Ymrwymiad i ddarparu gwasanaethau cyfieithu priodol mewn cyfarfodydd a digwyddiadau cyhoeddus lle bo angen er mwyn hwyluso defnydd o'r Gymraeg.
- Ymrwymiad i sicrhau bod gwahoddiadau, agendâu, cofnodion a deunyddiau cysylltiedig ar gael yn Gymraeg.
- Ymrwymiad i sicrhau bod unrhyw ddeunydd a gaiff ei arddangos neu ei ddosbarthu mewn cyfarfodydd a digwyddiadau cyhoeddus ar gael yn Gymraeg, a bod y Gymraeg yn cael ei thrin yn gyfartal â'r Saesneg.
- Ymrwymiad i roi gwybod i fynychwyr am y trefniadau ieithyddol sydd ar gael ac i annog defnydd o'r Gymraeg mewn cyfarfodydd a digwyddiadau cyhoeddus.
- Ymrwymiad i roi ystyriaeth i anghenion ieithyddol y gynulleidfa wrth gynllunio a threfnu cyfarfodydd a digwyddiadau.
- Disgrifiad o'r trefniadau a wneir i weithredu'r ymrwymïadau hyn.

Derbynfa

Mae'r dderbynfa yn aml yn fan cyswllt cyntaf a phwysicaf rhwng sefydliad a'r cyhoedd. Mae'n chwarae rhan allweddol wrth siapio argraff gyntaf defnyddwyr gwasanaethau ac wrth sicrhau eu bod yn gallu cael mynediad at wybodaeth, cymorth a gwasanaethau yn effeithiol. O ganlyniad, dylai sefydliadau ystyried yn ofalus sut y gall eu trefniadau derbynfa alluogi pobl i ddefnyddio'r Gymraeg yn naturiol ac yn hyderus o'r eiliad gyntaf y maent yn cysylltu â'r sefydliad. Mae darparu profiad croesawgar a dwyieithog yn y dderbynfa yn cyfrannu at drin y Gymraeg a'r Saesneg ar sail cydraddoldeb ac yn helpu i sicrhau nad oes angen i ddefnyddwyr ofyn yn benodol am wasanaeth Cymraeg cyn gallu ei dderbyn.

Wrth sicrhau bod gwasanaeth derbynfa ar gael yn Gymraeg, dylai sefydliad gynnig gwasanaeth Cymraeg yn rhagweithiol yn hytrach na disgwyl i ymwelydd wneud cais amdano. Dylai'r gwasanaeth Cymraeg fod ar gael yn ddi-rwystr, gan sicrhau nad oes rhaid troi at y Saesneg er mwyn derbyn y gwasanaeth derbynfa yn Gymraeg.

Dylai cynllun iaith gynnwys:

- Ymrwymiad y bydd unrhyw wasanaeth derbynfa sydd wedi ei leoli yng Nghymru yn trin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal;
- Ymrwymiad, lle nad oes gwasanaeth derbynfa wyneb yn wyneb Cymraeg ar gael, bydd y sefydliad yn darparu gwasanaeth Cymraeg dros y ffôn;
- Ymrwymiad i arddangos arwydd yn Gymraeg yn y dderbynfa sy'n datgan bod croeso i bobl ddefnyddio'r Gymraeg;
- Ymrwymiad i sicrhau bod staff derbynfa sy'n siarad Cymraeg yn dangos hynny (e.e. drwy fathodyn neu laniard) er mwyn hybu'r defnydd o'r Gymraeg.
- Disgrifiad o'r trefniadau mewn lle gan y sefydliad i ddarparu gwasanaeth derbynfa Cymraeg yn effeithiol gan gynnwys:
 - rhoi canllawiau i staff;
 - hyfforddi staff ar ofynion y cynllun iaith mewn perthynas â derbyn ymwelwyr;
 - gwneud trefniadau rota ac amserlennu staff i sicrhau bod siaradwyr Cymraeg ar gael i dderbyn ymwelwyr i'r dderbynfa;
- Cynnwys amserlen weithredu yn y cynllun os nad yw pob elfen o'r ymrwymiad ar waith eto.

Delio â'r cyhoedd mewn ffyrdd eraill

Arolygon cyhoeddus

Pan fydd arolygon cyhoeddus yn cael eu cynnal, boed hynny er mwyn casglu gwybodaeth neu i ganfod barn y cyhoedd, dylai sefydliadau:

- sicrhau y bydd pob elfen o gyfathrebu â'r cyhoedd ar gael yn Gymraeg;
- sicrhau bod dewis iaith yn cael ei sefydlu ymlaen llaw ar gyfer yr holl arolygon cyhoeddus;
- wirio dewis iaith ymatebwyr cyn cychwyn yr arolwg;
- ceisio barn am wasanaethau Cymraeg lle bo'n berthnasol a phriodol.

Digwyddiadau cyhoeddus eraill (gan gynnwys seminarau a sesiynau hyfforddi)

Mae digwyddiadau cyhoeddus yn cynnig cyfleoedd pwysig i unigolion ddefnyddio'r Gymraeg wrth ymgysylltu â sefydliadau. Dylai sefydliadau sicrhau bod trefniadau ar gyfer digwyddiadau cyhoeddus yn galluogi unigolion i ddefnyddio'r Gymraeg a bod y Gymraeg yn cael ei thrin yn gyfartal â'r Saesneg.

Dylai cynllun iaith gynnwys:

- Ymrwymiad i alluogi unigolion i ddefnyddio'r Gymraeg mewn digwyddiadau cyhoeddus a gynhelir yng Nghymru.
 - Ymrwymiad i roi ystyriaeth i anghenion a dewisiadau ieithyddol y gynulleidfa wrth gynllunio digwyddiadau cyhoeddus.
 - Ymrwymiad i hyrwyddo a hwyluso defnydd o'r Gymraeg mewn digwyddiadau cyhoeddus.
 - Ymrwymiad i sicrhau bod deunyddiau hyrwyddo, ffurflenni cofrestru, cyflwyniadau, deunyddiau digwyddiad ac unrhyw adnoddau cysylltiedig ar gael yn Gymraeg.
 - Ymrwymiad i ddarparu gwasanaethau cyfieithu neu gymorth ieithyddol priodol lle bo angen er mwyn galluogi cyfranogiad yn Gymraeg.
 - Ymrwymiad i sicrhau bod trefniadau'r digwyddiad yn ei gwneud yn glir bod croeso i unigolion ddefnyddio'r Gymraeg.
 - Ymrwymiad i sicrhau, lle bo'n ymarferol, fod staff neu hwyluswyr sy'n gallu cyfathrebu yn Gymraeg ar gael mewn digwyddiadau cyhoeddus.
 - Ymrwymiad i sicrhau nad yw defnyddio'r Gymraeg yn creu rhwystrau i gyfranogi;
 - Ymrwymiad i drin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal wrth gynllunio, hyrwyddo a chynnal digwyddiadau cyhoeddus.
 - Disgrifiad o'r trefniadau a wneir i weithredu'r ymrwymïadau hyn, gan gynnwys canllawiau i staff, hyfforddiant priodol a threfniadau sicrhau capasiti Cymraeg.
-

4 Wyneb Cyhoeddus

Hunaniaeth Gorfforaethol

Mae hunaniaeth gorfforaethol yn cwmpasu'r holl ffyrdd y mae sefydliad yn cyflwyno ei hun i'r byd allanol – o'i logo a'i liwiau brand, i ddeunyddiau ysgrifennu swyddogol, templedi, gwisg staff, cerbydau ac adnoddau digidol. I sefydliad sydd yn gweithredu cynllun iaith, mae hunaniaeth gorfforaethol yn fwy na mater o gysondeb gweledol yn unig – mae'n gyfrwng pwerus i gyfleu ymrwymiad diffuant i'r Gymraeg.

Pan fo'r Gymraeg yn weladwy ac yn amlwg ym mhob agwedd o ddelwedd gyhoeddus sefydliad, mae'n anfon neges bwysig i ddefnyddwyr, staff a phartneriaid bod y Gymraeg yn flaenoriaeth wirioneddol, nid yn ystyriaeth eilradd. Mae pob elfen o hunaniaeth gorfforaethol sy'n cynnwys y Gymraeg yn cyfrif – a phob elfen sy'n ei hesgeuluso yn andwyol i hyder y defnyddiwr.

Mae'r adran hon yn ymdrin â'r prif feysydd hunaniaeth gorfforaethol a'r hyn a ddisgwylir o bob un:

Maes hunaniaeth gorfforaethol	Beth sy'n berthnasol i'r Gymraeg
Enw'r sefydliad	Defnyddio enw Cymraeg y sefydliad yn gyson ar bob deunydd cyhoeddus yng Nghymru.
Logo a brand	Sicrhau bod y Gymraeg a'r Saesneg yn cael eu trin yn gyfartal yn logo a brand y sefydliad.
Deunyddiau ysgrifennu	Y Gymraeg a'r Saesneg yn cael eu trin yn gyfartal ar benawdau llythyr, cardiau busnes, llofnodion, cyhoeddiadau ayyb.
Templedi swyddogol	Y Gymraeg a'r Saesneg yn cael eu trin yn gyfartal ar dempledi corfforaethol gan gynnwys llythyrau, adroddiadau, cyflwyniadau <i>PowerPoint</i> ayyb.
Gwisg staff a bathodynau	Y Gymraeg a'r Saesneg yn cael eu trin yn gyfartal ar wisgoed, cardiau adnabod a bathodynau staff.
Cerbydau'r sefydliad	Y Gymraeg a'r Saesneg yn cael eu trin yn gyfartal ar bob cerbyd sydd yn arddangos brand y sefydliad.
Adeiladau a delwedd allanol	Y Gymraeg a'r Saesneg yn cael eu trin yn gyfartal ar arwyddion a hysbysfyrddau'r sefydliad.
Hunaniaeth ddigidol	Y Gymraeg a'r Saesneg yn cael eu trin yn gyfartal ar logo gwefan, delweddau proffil cyfryngau cymdeithasol a throedluniau e-bost.

Enw a logo'r sefydliad

Mae enw'r sefydliad yn elfen ganolog o'i hunaniaeth, ac mae'r Gymraeg yn rhan annatod o'r hunaniaeth honno. Dylai sefydliad sy'n gweithredu yng Nghymru ddefnyddio enw Cymraeg cyson, cyhoeddus ar draws ei holl gyfathrebiadau.

- Pan fo enw Cymraeg swyddogol yn bodoli, bydd yn cael ei ddefnyddio'n gyson ar bob deunydd cyhoeddus, gohebiaeth, arwyddion a phlatfformau digidol;
- Bydd logo'r sefydliad naill ai (a) yn ddwyieithog, (b) yn Gymraeg yn unig, neu (c) gyda fersiwn Cymraeg ar gael i'w ddefnyddio yng Nghymru;
- Bydd y logo Cymraeg neu ddwyieithog yn cael yr un statws, yr un ansawdd argraffu a'r un gwelededd â'r fersiwn Saesneg.

Deunyddiau Ysgrifennu Swyddogol

Deunyddiau ysgrifennu swyddogol – megis penawdau llythyr, cardiau busnes, amlenni a slipiau cyfarch – yn aml iawn yw'r cyswllt corfforaethol cyntaf rhwng y sefydliad a'i ddefnyddwyr. Dylai'r Gymraeg fod yn weladwy a blaenllaw ar y deunyddiau.

- Bydd penawdau llythyr yn ddwyieithog, gan roi i'r enw Cymraeg y sefydliad yr un amlygrwydd â'r Saesneg;
- Bydd cardiau busnes ar gael yn Gymraeg, gan gynnwys teitlau swydd;
- Bydd amlenni swyddogol yn dangos enw Cymraeg y sefydliad;
- Bydd slipiau cyfarch a deunyddiau cyfathrebu eraill ar gael yn Gymraeg.

Templedi Swyddogol

Templedi swyddogol yw sylfaen cyfathrebu ysgrifenedig y sefydliad. Dylid buddsoddi mewn creu set gyflawn o dempledi dwyieithog sy'n hwylus ac yn rhwydd i'w defnyddio.

- Bydd templed llythyr swyddogol y sefydliad yn ddwyieithog, gan gynnwys pennawd, cyfeiriad a throedlun;
- Bydd templed e-bost (gan gynnwys llofnod) yn ddwyieithog gan gynnwys datganiad yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg;
- Bydd templed cyflwyniadau (PowerPoint neu debyg) yn cynnwys y logo Cymraeg/dwyieithog yn y ddwy iaith;
- Bydd templedi adroddiad, cofnodion a dogfennau mewnol allweddol yn ddwyieithog gan arddel yr enw a logo Cymraeg;
- Bydd y templedi hyn ar gael yn hawdd ar fewnwyd y sefydliad i bob aelod o staff.

Gwisg Staff a Bathodynau



Mae gwisg staff a bathodynau yn gallu cyfrannu at welededd y Gymraeg a helpu defnyddwyr gwasanaethau i adnabod aelodau staff sy'n gallu cyfathrebu yn Gymraeg.

Gall hefyd gefnogi hawl unigolion i ddefnyddio'r Gymraeg a chynyddu hyder i wneud hynny.

Dylai sefydliadau ystyried sut y gellir defnyddio gwisg staff, bathodynau enw a dulliau adnabod eraill i ddangos eu hymrwymiad i'r Gymraeg ac i hyrwyddo gwasanaethau Cymraeg yn rhagweithiol.

Dylai cynllun iaith gynnwys:

- Ymrwymiad i sicrhau bod unrhyw destun ar wisg staff fod ar gael yn Gymraeg neu'n ddwyieithog;
- Ymrwymiad i sicrhau bod bathodynau enw staff ar gael yn Gymraeg neu'n ddwyieithog;
- Ymrwymiad i ddarparu bathodynau, laniardiau neu ddulliau adnabod eraill i staff sy'n gallu darparu gwasanaeth yn Gymraeg;
- Ymrwymiad i hyrwyddo defnydd o ddulliau adnabod sy'n galluogi'r cyhoedd i adnabod siaradwyr Cymraeg;
- Disgrifiad o'r trefniadau a ddefnyddir i ddarparu ac adolygu gwisg staff, bathodynau ac unrhyw ddulliau adnabod eraill sy'n ymwneud â'r Gymraeg.

Cerbydau'r Sefydliad

Mae cerbydau'r sefydliad yn symud o amgylch y gymuned ac yn creu argraff weladwy barhaus. Mae cerbydau â logos a manylion dwyieithog yn hybu'r Gymraeg a'r sefydliad ar yr un pryd.

- Bydd enw Cymraeg y sefydliad yn ymddangos ar bob cerbyd yn yr un modd ag enw Saesneg – yr un maint, yr un amlygrwydd;
- Pan fo'r logos a'r manylion yn cael eu hadnewyddu neu'i dylunio o'r newydd, bydd y Gymraeg yn cael ei hystyried yn rhan sylfaenol o'r broses honno.

Dylai cynllun iaith gynnwys:

- Ymrwymiad y bydd y Gymraeg yn ymddangos yn gyfartal â'r Saesneg ar holl ddeunyddiau hunaniaeth gorfforaethol y sefydliad. Ni fydd y Gymraeg yn ymddangos mewn ffont llai, mewn lliw llai amlwg, nac ar leoliad llai gweladwy na'r Saesneg;
- Ymrwymiad y bydd enw Cymraeg y sefydliad (lle bo un yn bodoli) yn cael ei ddefnyddio'n gyson ar bob deunydd a phlatform;
- Ymrwymiad y bydd pob templed swyddogol (llythyrau, e-byst, adroddiadau, cyflwyniadau) yn Gymraeg neu'n ddwyieithog o'r cychwyn;
- Ymrwymiad y bydd cywirdeb ieithyddol y Gymraeg ar ddeunyddiau brand yn cael ei adolygu gan gyfieithydd cymwys cyn cyhoeddi.
- Cynnwys amserlen weithredu yn y cynllun os nad yw pob elfen o'r ymrwymiad ar waith eto.

Arwyddion

Mae'r arwyddion a'r wybodaeth a welir ar adeiladau a safleoedd yn creu argraff gyntaf ar ddefnyddwyr. Mae arwyddion allanol dwyieithog yn cyfrannu at ethos Cymraeg y sefydliad cyn i unrhyw un gamu dros y trothwy.

- Dylai pob arwydd allanol ar safleoedd y sefydliad yng Nghymru fod yn Gymraeg neu'n ddwyieithog, gyda'r Gymraeg yn dod gyntaf fel arfer;
 - Dylai enwau adeiladau a safleoedd fod yn Gymraeg neu'n ddwyieithog;
-

- Dylai unrhyw hysbysfyrddau allanol, arwyddion mynediad a gwybodaeth ddiogelwch fod yn Gymraeg neu'n ddwyieithog.
- Dylai'r Gymraeg ymddangos ar arwyddion mewn modd sy'n trin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal;
- Dylid sicrhau bod yr holl wybodaeth Gymraeg yn cyfateb â'r Saesneg o rannu cynnwys, dyluniad a chywirdeb ar bob arwydd;
- Dylid rhoi ystyriaeth ofalus i faint testun, trefn a dyluniad cyffredinol.

Beth i'w ystyried wrth gynllunio arwyddion?

Elfen	Disgwyliad
Maint testun	Y Gymraeg a'r Saesneg un maint
Trefn iaith	Y Gymraeg yn dod gyntaf fel arfer ar arwyddion yng Nghymru.
Dyluniad cyffredinol	Y Gymraeg yr un mor weledol â'r Saesneg
Cywirdeb	Dylai cyfieithydd cymwys a phroffesiynol wirio'r testun Cymraeg cyn argraffu.

Dylai cynllun iaith gynnwys:


- Ymrwymiad i ddarparu arwyddion gwybodaeth yn Gymraeg neu'n gwbl ddwyieithog o fewn ffiniau eiddo'r sefydliad yng Nghymru, gan gynnwys mannau mewnol lle mae aelodau o'r cyhoedd yn cael mynediad iddynt.
- Ymrwymiad i sicrhau y bydd arwyddion eraill (e.e. arwyddion priffyrdd a gwybodaeth gyhoeddus) y mae'r sefydliad yn gyfrifol amdanynt, yn Gymraeg neu'n gwbl ddwyieithog.
- Ymrwymiad y bydd maint, safon, eglurder ac amlygrwydd geiriau ar arwyddion yn parchu'r egwyddor o gydraddoldeb.
- Ymrwymiad y bydd arwyddion Cymraeg a Saesneg ar wahân, o'u darparu, yn gyfartal o ran ffurf, maint, ansawdd, eglurder ac amlygrwydd.
- Disgrifiad o'r camau i'w cymryd i weithredu'r ymrwymladau hyn, gan gynnwys amserlen i'w cwblhau.

Gwefannau, Apiau a Chyfryngau Cymdeithasol

Mae gwasanaethau digidol, gwefannau a chyfryngau cymdeithasol yn rhan greiddiol o'r ffordd y mae cyrff cyhoeddus yn cyfathrebu ac yn darparu gwasanaethau yn yr unfed ganrif ar hugain. Er nad yw gwasanaethau digidol, gwefannau a chyfryngau cymdeithasol yn cael eu crybwyll yn benodol yn Neddf yr Iaith Gymraeg 1993, dylid eu hystyried yn wasanaethau allweddol wrth gynllunio a gweithredu gwasanaethau Cymraeg. Mewn llawer o achosion, dyma'r prif gyfrwng y mae'r cyhoedd yn ei ddefnyddio i gael gwybodaeth neu ryngweithio â sefydliad. Felly, mae'n bwysig bod y Gymraeg yn cael ei hymgorffori yn y gwasanaethau hyn o'r cychwyn cyntaf, fel bod defnyddwyr yn gallu defnyddio'r Gymraeg yn rhwydd ac yn cael profiad cyfatebol i ddefnyddwyr Saesneg eu hiaith.

Enghreifftiau o arferion da ar gyfer gwefannau:

- Defnyddio naidlen ('pop-up') i gynnig y Gymraeg ar ymweliad cyntaf;



- Gosod yr iaith Gymraeg yn ddiofyn os yw'r defnyddiwr wedi dewis hynny o'r blaen;
- Cynnig dolen uniongyrchol i'r dudalen Gymraeg gyfatebol - nid dim ond i hafan y Gymraeg.

Dylai cynllun iaith gynnwys:

- Ymrwymiad y bydd y Gymraeg a'r Saesneg yn cael eu trin yn gyfartal ar wefannau a gwasanaethau digidol y sefydliad.
- Ymrwymiad y bydd tudalen hafan a dewislenni'r wefan yn Gymraeg
- Ymrwymiad y bydd modd pori'r tudalennau Cymraeg yn hwylus gyda dolen amlwg o'r dudalen Saesneg i'r ochr Gymraeg;
- Ymrwymiad y bydd deunydd Cymraeg yn gyfartal â'r Saesneg yn nhermau ansawdd, cywirdeb, ac amlygrwydd ac y bydd y deunydd Cymraeg yn cael ei ddiweddararu'r un pryd a'r cynnwys cyfatebol Saesneg.
- Disgrifiad o'r camau i'w cymryd i weithredu'r ymrwymïadau hyn, gan gynnwys amserlen i'w cwblhau.

Cyfryngau cymdeithasol

Mae cyfryngau cymdeithasol yn sianel gyflym a dylanwadol ar gyfer cyfathrebu. Nid yw defnyddio'r Gymraeg ar gyfryngau cymdeithasol yn ymwneud â chyfieithu cynnwys yn unig. Dylai sefydliadau ddefnyddio'r cyfrwng yn rhagweithiol i hyrwyddo gwasanaethau Cymraeg, annog defnydd o'r Gymraeg a chreu amgylchedd digidol lle mae'r Gymraeg yn weladwy ac yn naturiol.

Disgwylir i gyrff sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei defnyddio'n rheolaidd ac yn weladwy ar y sianeli hyn drwy:

- Sicrhau bod y Gymraeg a'r Saesneg yn cael eu trin yn gyfartal ar gyfrifon a sianeli cyfryngau cymdeithasol.
- Sicrhau bod deunydd Cymraeg yn gyfartal â'r Saesneg yn nhermau ansawdd, cywirdeb, ac amlygrwydd ac y bydd y deunydd Cymraeg yn cael ei ddiweddararu'r un pryd a'r cynnwys cyfatebol Saesneg.
- Sicrhau gwelededd amlwg i'r Gymraeg wrth gyflwyno gwybodaeth a diweddariadau ar y cyfryngau cymdeithasol.

Yn ymarferol bydd hyn yn golygu:

- Cyhoeddi negeseuon yn Gymraeg ar yr un pryd â'r Saesneg;
- Ymateb yn Gymraeg i ymholiadau neu sylwadau a wneir yn Gymraeg;
- Naill ai cyfuno negeseuon yn y ddwy iaith ar yr un llif, neu greu cyfrifon ar wahân (ond sicrhau cysondeb rhyngddynt);
- Cynnwys dolen o'r cyfrif Saesneg i'r cyfrif Cymraeg cyfatebol.
- Cyflwyno canllaw mewnol ar ddefnyddio'r Gymraeg ar gyfryngau cymdeithasol sy'n nodi pa bryd a sut y caiff y Gymraeg ei defnyddio, a sut mae'r sefydliad yn sicrhau cysondeb rhwng y platfform yn Gymraeg a Saesneg.

Dylai cynllun iaith gynnwys:

- Ymrwymiad i sicrhau bod cynnwys Cymraeg a Saesneg yn cael eu trin yn gyfartal ar gyfrifon a sianeli cyfryngau cymdeithasol y sefydliad;
- Ymrwymiad i gyhoeddi cynnwys Cymraeg a Saesneg ar yr un pryd, lle bo fersiynau yn cael eu darparu yn y ddwy iaith;
- Ymrwymiad i sicrhau bod cynnwys Cymraeg yn cael yr un statws, ansawdd, amlygrwydd ac ymgysylltiad â chynnwys Saesneg;
- Ymrwymiad i ymateb yn Gymraeg i sylwadau, ymholiadau a negeseuon a dderbynnir yn Gymraeg;
- Ymrwymiad i sicrhau bod gwybodaeth am wasanaethau Cymraeg a hawliau defnyddwyr i ddefnyddio'r Gymraeg yn cael ei hyrwyddo'n rheolaidd drwy gyfrwng y cyfryngau cymdeithasol;
- Ymrwymiad i sicrhau bod unrhyw gynnwys amlgyfrwng a gyhoeddir ar gyfryngau cymdeithasol, gan gynnwys fideos a delweddau, ar gael yn Gymraeg neu'n ddwyieithog;
- Ymrwymiad i sicrhau bod enwau cyfrifon, disgrifiadau proffil, bywgraffiadau a gwybodaeth sefydliadol yn Gymraeg;
- Ymrwymiad i ystyried y Gymraeg wrth gynllunio ymgyrchoedd cyfathrebu a marchnata ar gyfryngau cymdeithasol;
- Ymrwymiad i ddarparu canllawiau a chefnogaeth briodol i staff sy'n defnyddio cyfryngau cymdeithasol ar ran y sefydliad;
- Disgrifiad o'r trefniadau a ddefnyddir i gynllunio, cyhoeddi, monitro ac ymateb i gynnwys cyfrwng cymdeithasol yn Gymraeg.

Apiau

Mae apiau symudol a gwe yn rhan gynyddol bwysig o'r ffordd y mae sefydliadau'n darparu gwasanaethau ac yn cyfathrebu â'r cyhoedd. Mewn llawer o achosion, ap yw'r prif gyfrwng y bydd defnyddwyr yn ei ddefnyddio i gael mynediad at wasanaethau. O ganlyniad, dylai sefydliadau sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei hystyried o'r cychwyn cyntaf wrth gynllunio, datblygu, caffael neu ddiweddarau unrhyw ap.

Dylai'r Gymraeg a'r Saesneg gael eu trin yn gyfartal o ran swyddogaeth, cynnwys, ansawdd, hygyrchedd a phrofiad y defnyddiwr. Wrth ddatblygu neu gaffael apiau, dylai sefydliadau:

- sicrhau bod rhyngwyneb llawn Cymraeg ar gael, gan gynnwys dewislenni, botymau, negeseuon system a chynnwys cymorth;
- sicrhau bod y Gymraeg a'r Saesneg yn cael eu trin yn gyfartal o ran ymarferoldeb ac ansawdd;
- profi'r ap yn Gymraeg cyn ei lansio a phan gyflwynir diweddariadau sylweddol;
- sicrhau bod y fersiwn Gymraeg yn cael ei diweddarau ar yr un pryd â'r fersiwn Saesneg;
- ystyried anghenion defnyddwyr Cymraeg wrth gynllunio a dylunio'r profiad defnyddiwr;
- sicrhau bod unrhyw hysbysiadau, rhybuddion neu negeseuon a anfonir drwy'r ap ar gael yn Gymraeg;
- cynnwys gofynion Cymraeg yn unrhyw gontract neu broses gaffael ar gyfer apiau neu wasanaethau trydydd parti.

Dylai cynllun iaith gynnwys:

- Ymrwymiad i sicrhau bod unrhyw ap a ddarperir gan y sefydliad, neu ar ei ran, yn trin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal;
- Ymrwymiad i sicrhau bod defnyddwyr yn gallu defnyddio'r ap yn Gymraeg heb orfod newid i'r Saesneg i gwblhau tasg neu gael mynediad at wybodaeth;
- Ymrwymiad i sicrhau bod cynnwys, swyddogaethau a diweddariadau ar gael yn Gymraeg ar yr un pryd ag yn Saesneg;
- Ymrwymiad i brofi apiau yn Gymraeg cyn eu lansio ac wrth gyflwyno newidiadau sylweddol;
- Disgrifiad o'r trefniadau a wneir i sicrhau bod gofynion Cymraeg yn cael eu hystyried wrth ddatblygu, caffael a rheoli apiau.

Technolegau newydd a'r defnydd o Ddeallusrwydd Artiffisial

Mae gwasanaethau digidol yn chwarae rôl ganolog mewn darparu gwasanaethau i'r cyhoedd. Mae datblygiadau cyson yn y maes technoleg a'r defnydd o ddeallusrwydd artiffisial ac mae'n anorffod y bydd gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru yn awyddus i fanteisio ar y cyfleoedd newydd a ddarperir gan y datblygiadau hynny. Mae'r Comisiynydd yn cydnabod bod DA yn cynnig cyfleoedd sylweddol i wella gwasanaethau ac i gryfhau defnydd y Gymraeg. Tra bod gweld datblygiadau o'r fath yn gadarnhaol dylid sicrhau gofal wrth ddefnyddio technolegau o'r fath, mae risgiau os yw systemau'n gweithio'n dda yn Saesneg ond yn wael yn Gymraeg, neu os ydynt yn cynhyrchu Cymraeg annaturiol neu anghywir. Wrth wneud penderfyniadau ynghylch y defnydd o dechnolegau newydd mae'n rhaid i sefydliadau:

- sicrhau bod y Gymraeg a'r Saesneg yn cael eu trin yn gyfartal pan ddefnyddir systemau DA.
- Asesu a phrofi offer DA yn Gymraeg, nid cymryd yn ganiataol eu bod yn gweithio cystal yn Gymraeg ag yn Saesneg.
- Fod yn dryloyw ynghylch eu defnydd o DA a chynnal safon uchel o gywirdeb ieithyddol.

Rhaid i'r Gymraeg gael ei hintegreiddio'n llawn mewn unrhyw wasanaethau technegol a digidol. Dylai sefydliadau sicrhau bod fersiynau Cymraeg o wefannau ac apiau:

- yn cynnwys yr un wybodaeth â'r fersiynau Saesneg;

- yn hawdd eu llywio a'u defnyddio; ac
- yn cael eu diweddarau ar yr un pryd a'r fersiwn Saesneg.

Lle defnyddir technolegau newydd megis 'chatbots' neu systemau wedi eu hawtomeiddio (gan gynnwys drwy ddefnydd o DA), dylid sicrhau bod y rhain yn medru gweithredu'n llawn yn Gymraeg. Mae hyn yn cynnwys:

- Sicrhau bod y Gymraeg a'r Saesneg yn cael eu trin yn gyfartal;
- Adnabod a chynnal sgwrs yn Gymraeg heb orfod newid iaith;
- Sicrhau bod ymatebion yn naturiol ac yn gywir yn ieithyddol;
- Profi'r system gyda defnyddwyr Cymraeg cyn ei lansio.

Am arweiniad pellach ar y defnydd o Ddeallusrwydd Artiffisial wrth ddarparu gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru dylid cyfeirio at [Ddatganiad Polisi'r Comisiynydd](#).

Dogfennau a Ffurflenni

Mae dogfennau a ffurflenni cyhoeddus yn rhan greiddiol o'r ffordd y mae sefydliadau'n darparu gwasanaethau ac yn rhyngweithio â'r cyhoedd. Yn aml, dyma'r prif ddull o gasglu gwybodaeth, gwneud ceisiadau, darparu canllawiau neu gyfleu penderfyniadau. Dylid felly sicrhau bod defnyddwyr yn gallu cwblhau prosesau a chael mynediad at wybodaeth drwy gyfrwng y Gymraeg heb unrhyw anfantais o gymharu â defnyddwyr Saesneg.

Dylai'r Gymraeg a'r Saesneg gael eu trin yn gyfartal o ran cynnwys, ansawdd, hygyrchedd, ffurf a statws. Ni ddylai defnyddwyr orfod gofyn am fersiwn Gymraeg nac aros yn hirach i'w derbyn.

Wrth baratoi, cyhoeddi neu ddiweddarau dogfennau a ffurflenni cyhoeddus, dylai sefydliadau:

- sicrhau bod fersiynau Cymraeg a Saesneg ar gael ar yr un pryd;
- sicrhau bod fersiynau Saesneg o ddogfennau a ffurflenni yn cynnwys datganiad clir yn nodi bod y ddogfen neu ffurflen hefyd ar gael yn Gymraeg;
- sicrhau bod y fersiynau Cymraeg a'r Saesneg yn cynnwys yr un wybodaeth ac yn cael yr un statws;
- sicrhau nad yw ffurflenni Cymraeg yn llai cyflawn nac yn llai ymarferol na'u ffurflenni cyfatebol Saesneg;
- sicrhau bod canllawiau, nodiadau esboniadol a dogfennau ategol ar gael yn Gymraeg;
- adolygu cynnwys Cymraeg yn briodol cyn ei gyhoeddi er mwyn sicrhau cywirdeb a naturioldeb yr iaith;
- sicrhau bod ffurflenni digidol yn caniatáu defnydd llawn o'r Gymraeg, gan gynnwys mewn meysydd testun, negeseuon gwall a negeseuon cadarnhau;
- cynllunio ar gyfer gofynion Cymraeg wrth gaffael systemau rheoli ffurflenni neu ddogfennau.

Math o ddogfen	Argymhelliad
Ffurflenni cyffredin	Dwyieithog mewn un ddogfen – galluogi'r defnyddiwr i gwblhau yn y naill iaith neu'r llall.
Posterï a thaflenni	Dwyieithog gydag amlygrwydd cyfartal i'r Gymraeg a'r Saesneg.
Dogfennau hir / strategaethau	Fersiynau ar wahân – ond y ddau ar gael yr un pryd ac yr un mor hygyrch.
Dogfennau mewnol staff	Asesu fesul achos ac annog drafftio dwyieithog.

Arferion da gyda ffurflenni ar-lein:

- Galluogi defnyddwyr i gwblhau'r broses yn llawn yn Gymraeg heb orfod newid iaith ar ganol proses;
- Dangos botwm iaith amlwg ar frig pob tudalen;
- Sicrhau bod negeseuon gwall a chadarnhad hefyd yn Gymraeg.

Dylai cynllun iaith gynnwys:

- Ymrwymiad i sicrhau bod pob dogfen gyhoeddus a ffurflen a ddarperir gan y sefydliad ar gael yn Gymraeg a Saesneg;
- Ymrwymiad i gyhoeddi fersiynau Cymraeg a Saesneg ar yr un pryd;
- Ymrwymiad i sicrhau bod y Gymraeg a'r Saesneg yn cael eu trin yn gyfartal o ran cynnwys, ansawdd, fformat ac amlygrwydd;
- Ymrwymiad i sicrhau bod ffurflenni, canllawiau a deunyddiau cysylltiedig ar gael yn Gymraeg;
- Ymrwymiad i sicrhau nad yw cwblhau ffurflen neu gyflwyno cais yn Gymraeg yn arwain at unrhyw oedi;
- Disgrifiad o'r trefniadau a ddefnyddir i baratoi, cyfieithu, gwirio a chyhoeddi dogfennau a ffurflenni yn y ddwy iaith.

Deunydd cyhoeddusrwydd, marchnata ac amlgyfrwng

Mae deunydd cyhoeddusrwydd a marchnata yn chwarae rhan ganolog wrth gyfathrebu â'r cyhoedd, hyrwyddo gwasanaethau a chynyddu ymwybyddiaeth o'r adnoddau a'r cyfleoedd a ddarperir gan sefydliad. Mae hyn yn cynnwys deunyddiau printiedig, hysbysebion, ymgyrchoedd marchnata, cynnwys ar-lein, fideos, podlediadau, animeiddiadau a deunydd cyfryngau cymdeithasol.

Mae'r modd y mae gwasanaethau'n cael eu hyrwyddo yn dylanwadu'n uniongyrchol ar ymwybyddiaeth a defnydd unigolion o'r gwasanaethau hynny. Nid yw darparu gwasanaethau Cymraeg yn ddigon ar ei ben ei hun. Rhaid eu hyrwyddo'n weithredol er mwyn sicrhau bod y cyhoedd yn ymwybodol ohonynt ac yn eu defnyddio. Heb hyrwyddo effeithiol, ni fydd gwerth na budd llawn y ddarpariaeth Gymraeg yn cael eu gwireddu

Yn aml, deunydd cyhoeddusrwydd yw'r argraff gyntaf y mae'r cyhoedd yn ei chael o sefydliad. O ganlyniad, dylai'r Gymraeg fod yn weladwy, hygyrch ac o'r un safon â'r Saesneg ym mhob deunydd sy'n cael ei gynhyrchu neu ei gomisiynu. Dylid trin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal o ran cynnwys, statws, ansawdd, amseru ac amlygrwydd. Ni ddylid trin y Gymraeg fel ychwanegiad nac fel cyfieithiad eilaidd a gynhyrchir ar ddiwedd proses ddatblygu deunyddiau.

Fel rhan o unrhyw ymgyrch gyhoeddusrwydd neu farchnata, dylid cynllunio cynnwys yn ddwyieithog o'r cychwyn cyntaf. Dylid osgoi dibynnu ar gyfieithu deunyddiau Saesneg ar ddiwedd y broses gan y gall hyn effeithio ar ansawdd, effaith a pherthnasedd y negeseuon Cymraeg. Mae'n bwysig cynnwys arbenigedd Cymraeg yn gynnar yn y broses gynllunio er mwyn sicrhau bod negeseuon yn naturiol, effeithiol ac yn addas ar gyfer y gynulleidfa darged.

Dylai sefydliadau:

- Nodi'n glir ar bob sianel gyfathrebu fod gwasanaethau ar gael yn Gymraeg;
- Sicrhau bod y Gymraeg yn rhan annatod o bob ymgyrch gyhoeddusrwydd a marchnata;
- Cynllunio ymgyrchoedd yn ddwyieithog o'r cychwyn, yn hytrach na chyfieithu'r cynnwys ar ddiwedd y broses;
- Mabwysiadu egwyddorion "[Ysgrifennu Triawd](#)", gan gynnwys swyddogion perthnasol a chyfieithwyr wrth gynllunio cynnwys;
- Sicrhau bod y Gymraeg yn ymddangos yn greadigol, yn weladwy ac yn berthnasol, nid yn unig yn gywir yn ieithyddol;
- Profi negeseuon Cymraeg gyda defnyddwyr cyn eu lansio;
- Sicrhau bod deunyddiau Cymraeg a Saesneg ar gael ar yr un pryd;
- Sicrhau bod unrhyw ddeunydd a gynhyrchir gan drydydd parti neu gontractwyr yn bodloni'r un gofynion ieithyddol.

Wrth gynllunio a chynhyrchu deunydd cyhoeddusrwydd, dylai sefydliadau:

- ystyried y Gymraeg o ddechrau'r broses gynllunio a dylunio;
- sicrhau bod deunyddiau Cymraeg a Saesneg ar gael ar yr un pryd;
- sicrhau bod y Gymraeg a'r Saesneg yn derbyn yr un amlygrwydd mewn dyluniad, lleoliad a chyflwyniad;
- sicrhau bod unrhyw ddeunydd a gynhyrchir gan drydydd parti neu gontractwyr yn bodloni'r un gofynion;
- adolygu cynnwys Cymraeg yn briodol cyn ei gyhoeddi er mwyn sicrhau cywirdeb a naturioldeb yr iaith;
- sicrhau bod y Gymraeg yn rhan annatod o unrhyw ymgyrch gyfathrebu neu farchnata newydd.

Fideos a Chynnwys Fideo

Mae fideos yn gynyddol yn un o'r prif ffyrdd y mae sefydliadau'n cyfathrebu â'r cyhoedd, yn enwedig drwy gyfryngau cymdeithasol. Dylai defnyddwyr Cymraeg allu cael mynediad at gynnwys fideo o'r un safon ac ar yr un pryd â defnyddwyr Saesneg.

Pan fydd sefydliad yn cynhyrchu neu'n comisiynu fideos, dylai:

- sicrhau bod fersiwn Gymraeg o'r fideo ar gael ar yr un pryd â'r fersiwn Saesneg;
- sicrhau bod cyflwynwyr neu gyfranwyr yn gallu defnyddio'r Gymraeg os ydynt yn dymuno gwneud hynny;
- darparu isdeitlau Cymraeg ar fideos Cymraeg a, lle bo'n briodol, ar gynnwys dwyieithog;
- sicrhau bod teitlau, disgrifiadau a negeseuon cysylltiedig yn Gymraeg wrth gyhoeddi cynnwys Cymraeg;
- sicrhau bod cynnwys fideo byr ar gyfryngau cymdeithasol yn rhoi amlygrwydd cyfartal i'r Gymraeg;
- os defnyddir troslais (voice-over), sicrhau bod fersiwn Gymraeg lawn ar gael yn ogystal â fersiwn Saesneg.

Lle nad yw'n ymarferol cynhyrchu fersiynau ar wahân, dylid ystyried cynhyrchu cynnwys dwyieithog o'r cychwyn cyntaf.

Dylai cynllun iaith gynnwys:

- Ymrwymiad i sicrhau y bydd pob deunydd cyhoeddusrwydd, marchnata ac amlygrwng yn trin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal;
- Ymrwymiad i gyhoeddi deunyddiau Cymraeg a Saesneg ar yr un pryd;
- Ymrwymiad i sicrhau bod y Gymraeg yn cael yr un amlygrwydd, statws ac ansawdd â'r Saesneg ym mhob ymgyrch a gweithgaredd cyhoeddusrwydd;
- Ymrwymiad i sicrhau bod fideos a chynnwys amlygrwng Cymraeg o'r un safon ac yn cael yr un amlygrwydd â chynnwys Saesneg;
- Ymrwymiad i sicrhau bod teitlau, disgrifiadau, isdeitlau a deunydd cysylltiedig ar gael yn Gymraeg lle bo hynny'n briodol;
- Ymrwymiad i ystyried gofynion y Gymraeg wrth gomisiynu asiantaethau marchnata, dylunwyr, cynhyrchwyr cynnwys neu ddarparwyr allanol eraill;
- Ymrwymiad y bydd staff, ymgynghorwyr, dylunwyr ac argraffwyr yn derbyn hyfforddiant a chyfarwyddiadau ynglŷn â sut i ddelio â chyhoeddiadau dwyieithog.
- Disgrifiad o'r trefniadau sydd mewn lle i sicrhau bod deunydd cyhoeddusrwydd, marchnata ac amlygrwng yn cydymffurfio â'r cynllun iaith.

Hysbysiadau i'r Wasg a Hysbysiadau Swyddogol

Mae hysbysiadau swyddogol yn ffordd bwysig o gyfathrebu gwybodaeth, cyngor, penderfyniadau a negeseuon allweddol i'r cyhoedd. Gall gynnwys hysbysiadau statudol, rhybuddion, ymgynghoriadau, hysbysiadau gwasanaeth, negeseuon diogelwch a gwybodaeth gyhoeddus arall. Gan fod hysbysiadau'n aml yn ymwneud â materion sy'n effeithio'n uniongyrchol ar unigolion a chymunedau, mae'n bwysig bod siaradwyr Cymraeg yn gallu cael mynediad atynt yn eu hiaith eu hunain heb unrhyw oedi nac anfantais.

Dylai sefydliadau sicrhau bod y Gymraeg a'r Saesneg yn cael eu trin yn gyfartal wrth baratoi, cyhoeddi a dosbarthu hysbysiadau swyddogol. Dylai hysbysiadau Cymraeg fod ar gael ar yr un pryd â'r rhai Saesneg, cynnwys yr un wybodaeth, a chael yr un amlygrwydd, statws a hygyrchedd. Ni ddylid trin y Gymraeg fel ychwanegiad i'r Saesneg na'i chyhoeddi ar ôl i'r wybodaeth fod eisoes wedi'i rhyddhau yn Saesneg.

Pam mae amseru yn bwysig?

Os cyhoeddir datganiad Saesneg am 9am, ond nad yw'r fersiwn Gymraeg ar gael tan 11am, mae newyddiadurwyr Cymraeg eu hiaith yn cael eu rhoi dan anfantais, a gall negeseuon allweddol gael eu colli.

Mae'r gofyniad i gyhoeddi ar yr un pryd yn adlewyrchu egwyddor cydraddoldeb sylfaenol.

Datrysiad: Cydlynw'r gwaith cyfieithu ymlaen llaw a chyhoeddi ar yr un pryd bob tro.

Dylai cynllun iaith gynnwys:

- Ymrwymiad i sicrhau bod hysbysiadau swyddogol yn cael eu cyhoeddi yn Gymraeg ac yn Saesneg ar yr un pryd;
- Ymrwymiad i sicrhau bod y Gymraeg a'r Saesneg yn cael eu trin yn gyfartal o ran cynnwys, statws, amlygrwydd ac amseru;
- Ymrwymiad i sicrhau bod unrhyw hysbysiadau statudol, ymgynghoriadau cyhoeddus, rhybuddion, negeseuon brys a hysbysiadau gwasanaeth ar gael yn Gymraeg;
- Ymrwymiad i sicrhau nad yw defnyddwyr yn cael eu rhoi dan anfantais oherwydd eu bod yn dewis defnyddio'r Gymraeg;
- Ymrwymiad i sicrhau bod hysbysiadau a gyhoeddir ar wefannau, cyfryngau cymdeithasol, apiau neu sianeli digidol eraill ar gael yn Gymraeg ar yr un pryd â'r fersiwn Saesneg;
- Ymrwymiad i sicrhau bod unrhyw ddeunydd cysylltiedig, megis ffurflenni ymateb, dogfennau cefndir neu ganllawiau, ar gael yn Gymraeg;
- Disgrifiad o'r trefniadau a wneir i baratoi, cyfieithu, gwirio a chyhoeddi hysbysiadau swyddogol yn y ddwy iaith.

Systemau annerch cyhoeddus

Mae systemau annerch a chyfathrebu cyhoeddus yn aml yn darparu'r cyswllt cyntaf rhwng sefydliad a defnyddwyr ei wasanaethau. Mae hyn yn cynnwys cyhoeddiadau dros uchelseinyddion, systemau galw cwsmeriaid, derbynfeydd a systemau cyfathrebu electronig eraill. O ganlyniad, mae'r ffordd y mae'r systemau hyn yn gweithredu yn dylanwadu'n sylweddol ar hyder defnyddwyr i ddefnyddio'r Gymraeg.

Dylai'r Gymraeg fod ar gael o'r cychwyn cyntaf wrth ddefnyddio unrhyw system annerch neu gyfathrebu cyhoeddus. Dylai'r Gymraeg a'r Saesneg gael eu trin yn gyfartal o ran ansawdd, hygyrchedd, amseru ac amlygrwydd.

Mae hefyd yn bwysig bod staff sy'n gweithredu'r systemau hyn yn deall eu rôl wrth greu amgylchedd lle mae defnyddio'r Gymraeg yn naturiol ac yn cael ei annog yn rhagweithiol.

Dylai cynllun iaith gynnwys:

- Ymrwymiad i sicrhau bod systemau annerch a chyfathrebu cyhoeddus yn trin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal;
- Ymrwymiad i ddarparu cyfarchion a negeseuon awtomatig yn Gymraeg;
- Ymrwymiad i sicrhau bod staff sy'n gyfrifol am unrhyw systemau annerch cyhoeddus yn cael arweiniad a hyfforddiant priodol mewn perthynas â'r Gymraeg;
- Disgrifiad o'r trefniadau sydd mewn lle i weithredu a monitro'r ymrwymïadau hyn.

Peiriannau Hunanwasanaeth

Mae peiriannau hunanwasanaeth yn dod yn fwyfwy cyffredin wrth ddarparu gwasanaethau i'r cyhoedd. Gall y rhain gynnwys peiriannau talu, ciosgau gwybodaeth, systemau cofrestru, terfynellau hunanwasanaeth, peiriannau archebu apwyntiadau a dyfeisiau digidol eraill sy'n galluogi defnyddwyr i gynnal trafodion neu gael gwybodaeth heb gymorth uniongyrchol aelod o staff.

Gan fod y peiriannau hyn yn aml yn gweithredu fel pwynt gwasanaeth annibynnol, mae'n hanfodol bod defnyddwyr yn gallu eu defnyddio drwy gyfrwng y Gymraeg mor hawdd ag y gall eu defnyddio yn Saesneg. Ni ddylai defnyddwyr Cymraeg wynebu llai o swyddogaethau, gwybodaeth neu gymorth oherwydd eu bod yn dewis defnyddio'r Gymraeg.

Dylid trin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal o ran argaeledd, swyddogaeth, dyluniad, ansawdd, amseru a phrofiad y defnyddiwr. Wrth gaffael, datblygu neu ddiweddarau peiriannau hunanwasanaeth, dylid ystyried gofynion y Gymraeg o'r cychwyn cyntaf.

Wrth ddarparu peiriannau hunanwasanaeth, dylai sefydliadau:

- sicrhau bod dewis Cymraeg clir ar gael ar ddechrau'r broses;
- sicrhau bod pob sgrin, cyfarwyddyd, botwm, neges gadarnhau a neges gwall ar gael yn Gymraeg;
- sicrhau bod y Gymraeg a'r Saesneg yn darparu'r un swyddogaethau a gwybodaeth;
- sicrhau bod diweddariadau i'r gwasanaeth Cymraeg a'r gwasanaeth Saesneg yn cael eu cyflwyno ar yr un pryd;
- sicrhau bod cynnwys Cymraeg yn gywir, naturiol ac yn addas ar gyfer defnyddwyr;
- cynnwys gofynion y Gymraeg wrth gaffael neu gomisiynu peiriannau a systemau newydd.
- sicrhau bod staff cyfagos yn ymwybodol o'r ddarpariaeth Gymraeg lle bo hynny'n berthnasol.

Dylai cynllun iaith gynnwys:

- Ymrwymiad i sicrhau bod unrhyw beiriant hunanwasanaeth a ddarperir gan neu ar ran y sefydliad yn gallu cael ei ddefnyddio yn Gymraeg;
- Ymrwymiad i sicrhau bod y Gymraeg a'r Saesneg yn cael eu trin yn gyfartal o ran swyddogaeth, cynnwys ac ansawdd;
- Ymrwymiad i sicrhau bod dewis Cymraeg ar gael o ddechrau'r broses;
- Ymrwymiad i sicrhau bod pob neges, cyfarwyddyd a gwybodaeth i ddefnyddwyr ar gael yn Gymraeg;
- Ymrwymiad i gynnwys gofynion y Gymraeg wrth gaffael, datblygu neu ddiweddarau peiriannau hunanwasanaeth;
- Disgrifiad o'r trefniadau sydd mewn lle i brofi, monitro a chynnal y gwasanaeth Cymraeg

Hyrwyddo Gwasanaethau Cymraeg

Nid yw darparu gwasanaethau Cymraeg yn unig yn ddigon i sicrhau eu bod yn cael eu defnyddio. Dylai sefydliadau gymryd camau rhagweithiol i hyrwyddo gwasanaethau

Cymraeg ac i godi ymwybyddiaeth ymhlith defnyddwyr o'r gwasanaethau sydd ar gael iddynt yn Gymraeg.

Dylai sefydliadau:

- hyrwyddo gwasanaethau Cymraeg fel rhan o'u gweithgarwch cyfathrebu a marchnata arferol;
- sicrhau bod gwybodaeth am wasanaethau Cymraeg yn hawdd i'w weld a'i ganfod;
- defnyddio amrywiaeth o sianeli cyfathrebu i godi ymwybyddiaeth o wasanaethau Cymraeg;
- ystyried sut y gall annog a chynyddu defnydd o wasanaethau Cymraeg dros amser;
- manteisio ar gyfleoedd i hyrwyddo eu gwasanaethau Cymraeg drwy fentrau a llwyfannau perthnasol megis [tudalen hyrwyddo gwasanaethau Cymraeg](#) ar wefan y Comisiynydd.
- Roi sylw i ddogfen gyngor Comisiynydd y Gymraeg ar [hybu defnydd o wasanaethau Cymraeg](#).

Dylai cynllun iaith gynnwys:

- Ymrwymiad i hyrwyddo gwasanaethau Cymraeg y sefydliad yn rhagweithiol.

5 Gweithlu a Sgiliau Cymraeg

Mae gallu sefydliad i ddarparu gwasanaethau Cymraeg o safon yn dibynnu ar sicrhau bod ganddo weithlu sy'n meddu ar y sgiliau, y capasiti a'r hyder i ddefnyddio'r Gymraeg. Dylai ystyriaethau ieithyddol gael eu hymgorffori ym mhob agwedd ar gynllunio'r gweithlu, recriwtio, datblygu staff a rheoli perfformiad.

Nid yw datblygu gweithlu dwyieithog yn ymwneud â recriwtio siaradwyr Cymraeg yn unig. Mae hefyd yn cynnwys cynllunio ar gyfer anghenion y sefydliad yn y dyfodol, datblygu sgiliau staff presennol, cefnogi defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle a sicrhau bod staff yn deall eu cyfrifoldebau mewn perthynas â'r Gymraeg.

Dylai sefydliadau:

- sicrhau bod ganddynt ddigon o staff â'r sgiliau Cymraeg angenrheidiol i ddarparu gwasanaethau yn Gymraeg;
- cadw cofnod cywir a chyfredol o sgiliau ieithyddol eu gweithlu;
- monitro capasiti Cymraeg y gweithlu yn rheolaidd;
- cynllunio ar gyfer datblygu a chynnal sgiliau Cymraeg yn y tymor byr, canolig a hir;
- ystyried anghenion ieithyddol wrth gynllunio'r gweithlu, recriwtio, datblygu staff a rheoli perfformiad;
- annog a hwyluso defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle.

Recriwtio a Chynllunio'r Gweithlu

Mae recriwtio yn chwarae rhan hollbwysig wrth sicrhau bod sefydliad yn gallu darparu gwasanaethau Cymraeg o safon ac adeiladu capasiti ieithyddol ar gyfer y dyfodol.

Dylid sicrhau nad yw'r broses recriwtio yn rhoi unigolion sy'n dymuno defnyddio'r Gymraeg dan anfantais. Dylai ymgeiswyr allu defnyddio'r Gymraeg drwy gydol y broses recriwtio os ydynt yn dymuno gwneud hynny.

Wrth asesu swyddi newydd neu swyddi gwag, dylai sefydliadau bennu'r lefel briodol o sgiliau Cymraeg sydd eu hangen ar gyfer y swydd.

Categori	Ystyr
Hanfodol	Mae sgiliau Cymraeg yn hanfodol i gyflawni'r swydd.
Angen dysgu	Disgwylir i ddeiliad y swydd ddatblygu sgiliau Cymraeg ar ôl penodi.
Dymunol	Mae sgiliau Cymraeg yn ddymunol ond nid yn ofynnol.
Ddim yn berthnasol	Nid oes angen sgiliau Cymraeg i gyflawni'r swydd.

Dylai sefydliadau:

- asesu anghenion ieithyddol pob swydd newydd neu wag;
- nodi gofynion Cymraeg swyddi yn glir mewn hysbysebion a disgrifiadau swydd;
- cyhoeddi hysbysebion a gwybodaeth recriwtio yn Gymraeg a Saesneg;
- croesawu a derbyn ceisiadau yn Gymraeg;
- gwahodd ymgeiswyr i nodi eu dewis iaith ar gyfer y broses recriwtio;
- sicrhau bod trefniadau cyfweld yn galluogi defnydd o'r Gymraeg;
- asesu sgiliau Cymraeg mewn modd teg a chyson lle bo angen;
- sicrhau bod gohebiaeth â'r ymgeisydd yn dilyn dewis iaith yr ymgeisydd;
- defnyddio data am sgiliau'r gweithlu i gynllunio recriwtio a datblygu'r gweithlu;
- cynllunio ar gyfer olyniaeth mewn swyddi lle mae sgiliau Cymraeg yn hanfodol.

Fframwaith Asesu Sgiliau Cymraeg

Er mwyn sicrhau cysondeb, dylai sefydliadau fabwysiadu fframwaith clir ar gyfer asesu sgiliau Cymraeg.

Dylai sefydliadau:

- ddefnyddio dull cyson i bennu gofynion ieithyddol swyddi;
- defnyddio'r un dull wrth asesu ymgeiswyr;
- sicrhau bod rheolwyr recriwtio yn defnyddio'r trefniadau hyn yn gyson;
- ystyried defnyddio'r Fframwaith Cyfeirio Ewropeaidd Cyffredin ar gyfer leithoedd (CEFR) wrth ddisgrifio lefelau sgiliau.¹

Datblygu a Chynnal Sgiliau Cymraeg

Strategaeth Sgiliau Cymraeg

Mae darparu gwasanaethau Cymraeg o safon yn dibynnu ar sicrhau bod gan y sefydliad weithlu sydd â'r sgiliau, y capasiti a'r hyder i ddefnyddio'r Gymraeg. Dylai sefydliadau fabwysiadu strategaeth sgiliau Cymraeg sy'n cynllunio'n rhagweithiol ar gyfer datblygu a chynnal y sgiliau ieithyddol sydd eu hangen i ddarparu gwasanaethau yn Gymraeg.

Dylid trin sgiliau Cymraeg yn yr un modd ag unrhyw sgil broffesiynol neu alwedigaethol arall sydd ei hangen ar y sefydliad. Dylai'r strategaeth gefnogi cynllunio'r gweithlu, recriwtio, datblygu staff, cynllunio olyniaeth a rheoli perfformiad.

Dylai sefydliadau:

- fabwysiadu strategaeth sgiliau Cymraeg i gynllunio ar gyfer datblygu capasiti Cymraeg yn y tymor byr, canolig a hir.
- defnyddio gwybodaeth am sgiliau'r gweithlu i lywio penderfyniadau recriwtio a datblygu;
- nodi meysydd lle mae angen cryfhau capasiti neu arbenigedd Cymraeg;
- monitro cynnydd yn erbyn amcanion a blaenoriaethau'r strategaeth;
- adolygu'r strategaeth yn rheolaidd fel rhan o drefniadau cynllunio'r gweithlu.

¹ Bydd Llywodraeth Cymru yn llunio Cod Cenedlaethol i ddisgrifio gallu yn y Gymraeg yn seiliedig ar fframwaith CEFR yn ystod 2027.

Dylai sefydliadau gymryd camau gweithredol i ddatblygu a chynnal capasiti Cymraeg y gweithlu.

Dylai sefydliadau:

- asesu anghenion ieithyddol y gweithlu yn rheolaidd;
- fonitro capasiti Cymraeg y sefydliad;
- nodi unrhyw fylchau mewn sgiliau Cymraeg;
- gymryd camau i fynd i'r afael â bylchau mewn sgiliau;
- gefnogi staff i ddysgu Cymraeg neu ddatblygu eu sgiliau ymhellach;
- ddarparu cyfleoedd dysgu a datblygu Cymraeg;
- ddarparu amser ac adnoddau priodol i staff ddatblygu sgiliau;
- gynnwys amcanion ieithyddol mewn trefniadau datblygu a rheoli perfformiad lle bo'n briodol;
- hyrwyddo cyfleoedd datblygu Cymraeg yn rheolaidd.

Cefnogi Defnydd o'r Gymraeg yn y Gweithle

Mae creu amgylchedd sy'n annog defnydd o'r Gymraeg yn rhan bwysig o ddatblygu gweithlu dwyieithog.

Gall hyn gynnwys:

- darparu meddalwedd a thechnoleg sy'n hwyluso defnydd o'r Gymraeg;
- darparu mynediad at eiriaduron, cronfeydd terminoleg ac adnoddau iaith;
- cynnal adnoddau a chanllawiau ar y fewnwyd;
- hyrwyddo mentrau sy'n cynyddu defnydd dyddiol o'r Gymraeg;
- annog staff sy'n siarad Cymraeg i ddefnyddio'r Gymraeg gyda chydweithwyr a defnyddwyr gwasanaeth;
- defnyddio mentora neu gymorth gan staff mwy profiadol i gefnogi defnydd o'r Gymraeg.

Hyfforddiant a Datblygu Staff

Mae hyfforddiant yn elfen allweddol o sicrhau bod staff yn deall cyfrifoldebau'r sefydliad mewn perthynas â'r Gymraeg ac yn teimlo'n hyderus wrth ddarparu gwasanaethau Cymraeg.

Dylai pob aelod o staff sy'n delio â'r cyhoedd, yn rheoli gwasanaethau neu'n gwneud penderfyniadau sy'n effeithio ar ddarpariaeth gwasanaethau dderbyn hyfforddiant priodol.

Dylai sefydliadau:

- gynnwys ymwybyddiaeth iaith fel rhan o raglenni sefydlu staff newydd;
 - ddarparu hyfforddiant ar ofynion y cynllun iaith;
 - sicrhau bod staff sy'n delio â'r cyhoedd yn gwybod sut i gynnig a darparu gwasanaethau Cymraeg yn rhagweithiol;
-

- ddarparu cyfleoedd i staff ddiweddarau a datblygu eu gwybodaeth yn rheolaidd;
- sicrhau bod rheolwyr yn deall eu cyfrifoldebau mewn perthynas â'r Gymraeg;
- asesu'r angen am hyfforddiant galwedigaethol drwy gyfrwng y Gymraeg;
- ddarparu neu hwyluso mynediad at hyfforddiant galwedigaethol Cymraeg lle bo angen;
- sicrhau nad yw staff sy'n defnyddio'r Gymraeg yn cael eu rhoi dan anfantais wrth gael mynediad at gyfleoedd datblygu proffesiynol.

Meysydd Hyfforddiant Posibl

Maes	Cynnwys awgrymedig
Cyfarch a chynnig gwasanaeth Cymraeg	Sut i gynnig y Gymraeg yn rhagweithiol.
Cefnogi defnyddwyr	Trosglwyddo galwadau neu drefnu cymorth ieithyddol.
Ymwybyddiaeth iaith	Egwyddorion y cynllun iaith a gwasanaethau Cymraeg.
Iaith Gwaith	Defnyddio'r brand a'r adnoddau yn briodol.
Sesiynau ymarferol	Ateb ffôn, derbyn ymwelwyr a sefyllfaoedd gwasanaeth.
Mentora	Cefnogi staff i ddatblygu hyder wrth ddefnyddio'r Gymraeg.

Dylai cynllun iaith gynnwys:

- Ymrwymiad i asesu anghenion ieithyddol swyddi a'r gweithlu yn rheolaidd;
- Ymrwymiad i ddatblygu a gweithredu strategaeth sgiliau Cymraeg i gynllunio a chynnal capasiti Cymraeg y gweithlu;
- Ymrwymiad i nodi gofynion Cymraeg swyddi yn glir wrth recriwtio;
- Ymrwymiad i sicrhau bod ymgeiswyr yn gallu defnyddio'r Gymraeg drwy gydol y broses recriwtio;
- Ymrwymiad i ddefnyddio dull cyson o asesu sgiliau Cymraeg;
- Ymrwymiad i gofnodi a monitro sgiliau ieithyddol staff;
- Ymrwymiad i gefnogi staff i ddysgu a defnyddio'r Gymraeg;
- Ymrwymiad i ddarparu mynediad at hyfforddiant, adnoddau a thechnoleg sy'n hwyluso defnydd o'r Gymraeg;
- Ymrwymiad i gynnwys ymwybyddiaeth iaith fel rhan o drefniadau sefydlu a datblygu staff;
- Ymrwymiad i sicrhau nad yw staff nac ymgeiswyr yn cael eu rhoi dan anfantais oherwydd eu bod yn defnyddio'r Gymraeg;
- Disgrifiad o'r trefniadau a ddefnyddir i recriwtio, datblygu, monitro a chynnal y sgiliau Cymraeg sydd eu hangen ar y sefydliad.

6 Gweithredu a monitro'r Cynllun Iaith

Mewnrwyd a Chyfathrebu Mewnol

Mae'r fewnrwyd yn adnodd pwysig ar gyfer cyfathrebu mewnol, darparu gwybodaeth i staff a chefnogi gwaith dyddiol y sefydliad. I lawer o aelodau staff, y fewnrwyd yw'r brif ffynhonnell ar gyfer polisiau, gweithdrefnau, newyddion, ffurflenni a deunyddiau cymorth. O ganlyniad, mae'n bwysig bod y Gymraeg yn cael ei hymgorffori'n effeithiol yn y fewnrwyd er mwyn galluogi staff i weithio a chael mynediad at wybodaeth drwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae'r fewnrwyd hefyd yn cynnig cyfle pwysig i hyrwyddo'r Gymraeg yn y gweithle a darparu adnoddau sy'n helpu staff i ddatblygu eu sgiliau a'u hyder wrth ddefnyddio'r Gymraeg.

Dylai sefydliadau:

- Sicrhau bod hafan y fewnrwyd ar gael yn Gymraeg;
- Sicrhau bod cynnwys Cymraeg yr hafan yn gwbl weithredol;
- Trin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal ar hafan y fewnrwyd;
- Sicrhau bod tudalennau newydd a thudalennau wedi'u diweddarau ar gael yn Gymraeg;
- Darparu mynediad hawdd at wybodaeth a gwasanaethau mewnol yn Gymraeg.

Wrth ddatblygu a chynnal y fewnrwyd, dylai sefydliadau:

- sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei hystyried wrth gynllunio a datblygu cynnwys newydd;
- sicrhau bod tudalennau Cymraeg a Saesneg yn cael eu diweddarau ar yr un pryd;
- sicrhau bod swyddogaethau, dolenni, ffurflenni a gwasanaethau ar y fewnrwyd yn gweithio'n llawn yn Gymraeg;
- sicrhau bod y Gymraeg yn cael yr un amlygrwydd a gwelededd â'r Saesneg;
- adolygu cynnwys Cymraeg yn rheolaidd er mwyn cynnal ansawdd a chywirdeb.

Hyrwyddo'r Gymraeg yn y Gweithle

Gall y fewnrwyd chwarae rhan bwysig wrth gefnogi a normaleiddio defnydd o'r Gymraeg yn y sefydliad.

Dylai sefydliadau ystyried:

- cynnal tudalen neu borth adnoddau Gymraeg ar y fewnrwyd;
 - darparu deunyddiau cymorth i staff sy'n dysgu neu'n defnyddio'r Gymraeg;
 - rhannu gwybodaeth am hyfforddiant, cyrsiau a chyfleoedd i ddatblygu sgiliau Cymraeg;
 - darparu dolenni at adnoddau defnyddiol megis geiriaduron, canllawiau arddull a gwasanaethau terminoleg;
 - hyrwyddo mentrau a gweithgareddau sy'n annog defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle.
-

Dylai cynllun iaith gynnwys:

- Ymrwymiad i sicrhau bod hafan y fewnwyd ar gael yn Gymraeg ac yn gweithredu'n llawn drwy gyfrwng y Gymraeg;
- Ymrwymiad i drin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal ar y fewnwyd o ran cynnwys, swyddogaeth ac amlygrwydd;
- Ymrwymiad i sicrhau bod tudalennau newydd a chynnwys wedi'i ddiweddarau ar gael yn Gymraeg;
- Ymrwymiad i sicrhau bod gwasanaethau, ffurflenni a swyddogaethau'r fewnwyd yn hygyrch yn Gymraeg;
- Ymrwymiad i gynnal adnoddau a gwybodaeth sy'n cefnogi staff i ddefnyddio a datblygu eu Cymraeg;
- Disgrifiad o'r trefniadau sydd mewn lle i gynllunio, cyfieithu, cyhoeddi a diweddarau cynnwys Cymraeg ar y fewnwyd.

Trefniadau gweinyddol i weithredu'r cynllun iaith

Mae gweithredu cynllun iaith yn llwyddiannus yn dibynnu ar drefniadau llywodraethu, atebolrwydd a chefnogaeth gadarn o fewn y sefydliad. Er mwyn sicrhau bod ymrwymadau'r cynllun yn cael eu gweithredu'n gyson ac yn effeithiol, dylai'r Gymraeg gael ei hymgorffori ym mhrosesau rheoli, cynllunio a gwneud penderfyniadau'r sefydliad. Nid cyfrifoldeb swyddog neu dîm unigol yn unig yw gweithredu cynllun iaith. Dylai fod yn gyfrifoldeb corfforaethol sy'n cael ei arwain gan uwch reolwyr, ei gefnogi gan reolwyr gwasanaeth ac sy'n cael ei ddeall gan bob aelod o staff.

Dylai sefydliadau sicrhau bod strwythurau clir ar waith ar gyfer arwain, cydlynu, monitro ac adolygu gweithrediad y cynllun iaith, a bod gan y rhai sy'n gyfrifol yr awdurdod a'r adnoddau angenrheidiol i gyflawni'r rôl honno.

Dylai sefydliadau:

- Rhoi cefnogaeth ac awdurdod llawn i weithredu'r cynllun iaith ar draws y sefydliad;
- Penodi uwch reolwr i fod yn gyfrifol am oruchwylio gweithrediad y cynllun;
- Sicrhau bod rheolwyr gwasanaeth yn gyfrifol am weithredu'r elfennau sy'n berthnasol i'w meysydd gwaith;
- Nodi swyddog neu rôl benodol sy'n gyfrifol am gydlynu, monitro a datblygu'r cynllun iaith i fod yn bwynt cyswllt ar faterion yn ymwneud â'r cynllun;
- Cyhoeddi'r cynllun iaith fel ei fod yn hygyrch i staff ac i'r cyhoedd;
- Sicrhau bod staff yn cael canllawiau ac arweiniad ar weithredu gofynion y cynllun.

Arweinyddiaeth ac Atebolrwydd

Er mwyn sicrhau gweithrediad effeithiol, dylai fod atebolrwydd clir ar bob lefel o'r sefydliad. Dylai sefydliadau:

- benodi uwch reolwr â chyfrifoldeb strategol am y cynllun iaith;
 - diffinio cyfrifoldebau rheolwyr unigol mewn perthynas â gweithredu'r cynllun;
 - sicrhau bod gofynion y cynllun yn cael eu hystyried wrth gynllunio gwasanaethau ac wrth wneud penderfyniadau;
 - cynnwys gwybodaeth am gynnydd, perfformiad a chydymffurfiaeth mewn trefniadau monitro a llywodraethu perthnasol;
 - sicrhau bod digon o adnoddau ar gael i weithredu ymrwymadau'r cynllun.
-

Cyfathrebu a Chefnogi Staff

Mae'n bwysig bod pob aelod o staff yn deall beth mae'r cynllun iaith yn ei olygu yn ymarferol a sut mae'n berthnasol i'w gwaith dyddiol. Dylai sefydliadau:

- sicrhau bod copi o'r cynllun ar gael i bob aelod o staff;
- cyhoeddi'r cynllun ar wefan y sefydliad ac ar y fewnwyd;
- cynhyrchu canllawiau ymarferol i staff ar weithredu'r cynllun;
- cynnwys gwybodaeth am y cynllun fel rhan o raglenni anwytho staff newydd;
- cynnal sesiynau briffio a hyfforddiant rheolaidd er mwyn codi ymwybyddiaeth a chryfhau dealltwriaeth staff.

Trefniadau Cyfieithu

Mae trefniadau cyfieithu effeithiol yn hanfodol er mwyn sicrhau bod y Gymraeg a'r Saesneg yn cael eu trin yn gyfartal wrth ddarparu gwasanaethau, cyhoeddi gwybodaeth a chyfathrebu â'r cyhoedd. Mae gwasanaethau cyfieithu a dehongli o safon yn helpu i sicrhau bod cynnwys Cymraeg yn gywir, yn naturiol ac yn addas i'r gynulleidfa, tra'n cynnal hyder defnyddwyr yn y gwasanaethau a ddarperir.

Wrth gynllunio a darparu gwasanaethau cyfieithu, dylai sefydliadau sicrhau bod trefniadau priodol ar waith i gefnogi cynhyrchu deunyddiau Cymraeg o safon uchel ac i alluogi defnydd o'r Gymraeg mewn cyfarfodydd, digwyddiadau a gweithgareddau eraill. Dylid hefyd ystyried cyfieithu fel rhan o'r broses gynllunio o'r cychwyn cyntaf, yn hytrach nag fel gweithgaredd sy'n digwydd ar ddiwedd y broses.

Mae'r defnydd cynyddol o dechnolegau cyfieithu a deallusrwydd artifisial yn gallu cynnig manteision o ran effeithlonrwydd, ond cyfrifoldeb y sefydliad yw sicrhau bod cynnwys a gyhoeddir yn Gymraeg yn gywir, yn naturiol ac yn briodol i'r diben.

Dylai sefydliadau:

- ddefnyddio cyflenwyr cymeradwy neu ddarparwyr cymwys i ddarparu gwasanaethau cyfieithu ar gyfer deunyddiau ysgrifenedig, digwyddiadau a chyfieithu ar y pryd;
- cynnwys gofynion cyfieithu mewn contractau a threfniadau caffael perthnasol;
- cynllunio ymlaen llaw ar gyfer anghenion cyfieithu er mwyn osgoi oedi wrth gyhoeddi deunyddiau Cymraeg.
- Ystyried gofynion cyfieithu wrth gynllunio prosiectau, gwasanaethau a chyhoeddiadau newydd;
- Cynnal safon uchel o gywirdeb a naturioldeb ieithyddol yn y Gymraeg.

Drafftio Dwyieithog

Lle bo'n ymarferol, dylid ystyried datblygu cynnwys yn ddwyieithog o'r cychwyn cyntaf yn hytrach na dibynnu ar gyfieithu ar ôl cwblhau fersiwn Saesneg.

Gall dulliau drafftio dwyieithog:

- wella ansawdd a chysondeb cynnwys yn y ddwy iaith;
- gyflymu'r broses ddrafftio a chyhoeddi;
- lleihau'r risg o golli ystyr neu gyd-destun wrth gyfieithu;
- hwyluso trin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal;
- arwain at gynnwys sydd yn fwy naturiol a pherthnasol i ddefnyddwyr Cymraeg.

Dylai sefydliadau gyfeirio at [ganllaw](#) y Comisiynydd ar ddrafftio dwyieithog wrth ddatblygu polisïau, cyhoeddiadau a deunyddiau cyhoeddus.

Defnyddio Technoleg

Lle defnyddir offer cyfieithu awtomatig neu dechnolegau eraill i gynorthwyo'r broses gyfieithu, dylai sefydliadau:

- sicrhau bod cynnwys terfynol yn cael ei wirio gan berson cymwys cyn ei gyhoeddi;
- asesu addasrwydd y dechnoleg ar gyfer y diben penodol;
- sicrhau nad yw defnydd o dechnoleg yn arwain at ostyngiad yn ansawdd y Gymraeg;
- defnyddio barn broffesiynol lle bo cynnwys yn gymhleth, yn sensitif neu'n gyhoeddus ei natur.

Dylai cynllun iaith gynnwys:

- Ymrwymiad i sicrhau bod gwasanaethau cyfieithu a dehongli priodol ar gael i gefnogi gweithrediad y cynllun iaith;
- Ymrwymiad i ddefnyddio cyfieithwyr a dehonglwyr cymwys wrth ddarparu gwasanaethau cyfieithu a dehongli;
- Ymrwymiad i gynllunio anghenion cyfieithu fel rhan o ddatblygu gwasanaethau, polisïau a chyhoeddiadau;
- Ymrwymiad i sicrhau bod deunyddiau Cymraeg a Saesneg yn cael eu trin yn gyfartal o ran ansawdd, amseru a statws;
- Ymrwymiad i gynnal safon uchel o gywirdeb a naturioldeb ieithyddol yn y Gymraeg;
- Disgrifiad o'r trefniadau sydd mewn lle i gomisiynu, rheoli ac adolygu gwasanaethau cyfieithu a dehongli.

Gweithio mewn Partneriaeth a Chaffael

Mae sefydliadau cyhoeddus yn darparu gwasanaethau drwy amrywiaeth o drefniadau, gan gynnwys partneriaethau, contractau gwasanaeth, trefniadau comisiynu, grantiau a chydweithio â sefydliadau eraill. Ni ddylai'r defnydd o drefniadau o'r fath arwain at ostyngiad yn argaeledd neu ansawdd gwasanaethau Cymraeg.

Lle bo sefydliad yn dirprwyo swyddogaeth neu'n comisiynu gwasanaeth i'w ddarparu ar ei ran, rhaid sicrhau bod y gwasanaeth hwnnw yn cael ei ddarparu yn unol ag ymrwymadau'r cynllun iaith gan sicrhau bod y Gymraeg a'r Saesneg yn cael eu trin yn gyfartal.

Dylai sefydliadau:

- ystyried gofynion y Gymraeg wrth gynllunio partneriaethau, trefniadau comisiynu a gweithgarwch caffael;
 - roi sylw i ddogfen gyngor Comisiynydd y Gymraeg ar [osod contractau gwasanaethau cyhoeddus](#);
 - cynnwys gofynion perthnasol y cynllun iaith mewn cytundebau, contractau a dogfennau tendro;
 - sicrhau bod contractwyr ac asiantau yn deall eu cyfrifoldebau mewn perthynas â'r Gymraeg;
 - sicrhau bod gwasanaethau a ddarperir ar eu rhan ar gael yn Gymraeg;
 - monitro cydymffurfiaeth contractwyr a phartneriaid â gofynion y Gymraeg;
 - ystyried perfformiad mewn perthynas â'r Gymraeg fel rhan o drefniadau rheoli contractau;
 - sicrhau bod defnyddwyr yn gallu defnyddio'r Gymraeg wrth gael mynediad at wasanaethau a ddarperir gan drydydd partïon ar ran y sefydliad.
-

Caffael a Thendro

Dylid ystyried gofynion y Gymraeg yn gynnar yn y broses gaffael ac nid ar ôl dyfarnu contract. Gall hyn gynnwys:

- cynnwys gofynion iaith fel rhan o fanylebau tendro;
- nodi gofynion penodol ar gyfer cyfathrebu, dogfennau, gwasanaethau digidol neu gymorth defnyddwyr;
- sicrhau bod darparwyr yn gallu cyflawni'r gofynion hynny cyn dyfarnu contract;
- cynnwys cymalau contract perthnasol sy'n galluogi monitro a gorfodi'r gofynion ieithyddol.

Dylai cynllun iaith gynnwys:

- Ymrwymiad i sicrhau na fydd partneriaethau, trefniadau contractio nac is-contractio yn tanseilio ymrwymadau'r cynllun iaith;
- Ymrwymiad i gynnwys gofynion perthnasol y Gymraeg mewn trefniadau caffael a chontractio;
- Ymrwymiad i sicrhau bod gwasanaethau a ddarperir ar ran y sefydliad yn trin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal;
- Ymrwymiad i fonitro cydymffurfiaeth contractwyr a phartneriaid â gofynion y Gymraeg;
- Disgrifiad o'r trefniadau a ddefnyddir i gynnwys, monitro a gorfodi gofynion y Gymraeg mewn partneriaethau a chontractau.

Cyhoeddusrwydd i'r cynllun iaith

Mae'n bwysig bod y cyhoedd a staff y sefydliad yn ymwybodol o'r ymrwymadau a geir yn y cynllun iaith a'r gwasanaethau Cymraeg sydd ar gael. Dylai'r sefydliad hyrwyddo'r cynllun yn weithredol a gwneud yn glir fod croeso i bobl ddefnyddio'r Gymraeg wrth ymwneud â'r sefydliad.

Dylai sefydliadau:

- rhoi cyhoeddusrwydd i'w gynllun iaith ac i'r gwasanaethau Cymraeg sydd ar gael drwy ei wefan a sianeli cyfathrebu perthnasol eraill;
- sicrhau bod gwybodaeth am y cynllun iaith ar gael yn hawdd i'r cyhoedd ac i staff;
- defnyddio cyfleoedd priodol i hyrwyddo'r gwasanaethau Cymraeg a ddarperir gan y sefydliad;
- sicrhau bod ei gwefan yn gwneud yn glir bod gwasanaethau ar gael yn Gymraeg a bod y Gymraeg yn cael ei thrin yn gyfartal â'r Saesneg.

Cynllun gweithredu

Tra bod y cynllun iaith yn nodi ymrwymadau'r sefydliad, dylai'r cynllun gweithredu nodi'n fanwl sut, pryd a chan bwy y bydd yr ymrwymadau hynny'n cael eu gweithredu. Mae cynllun gweithredu effeithiol yn sicrhau bod y cynllun iaith yn ddogfen fyw sy'n llywio gwelliant parhaus, yn hytrach na datganiad polisi yn unig.

Argymhellir yn gryf fod pob cynllun iaith yn cynnwys cynllun gweithredu manwl naill ai fel rhan annatod o'r cynllun neu fel atodiad cysylltiedig. Dylai'r cynllun gweithredu fod yn ddogfen reoli sy'n cael ei monitro a'i diweddarau'n rheolaidd.

Dylai'r cynllun gweithredu:

- Nodi'r meysydd lle nad yw trefniadau neu wasanaethau'r sefydliad eto yn cyrraedd y lefel o ddarpariaeth a ddymunir;
- Blaenoriaethu gweithgareddau datblygu yn seiliedig ar effaith y gwasanaeth a'r risg i ddefnyddwyr Cymraeg;
- Gosod camau gweithredu clir, realistig a chyraeddadwy dros gyfnod y cynllun;
- Pennu cyfrifoldebau am gyflawni pob cam gweithredu;
- Cynnwys amserlenni a therfynau amser clir;
- Nodi adnoddau, cyllid neu gefnogaeth sydd eu hangen i gyflawni'r camau gweithredu;
- Cynnwys targedau a mesurau llwyddiant y gellir eu monitro;
- Gosod cerrig milltir mesuradwy i asesu cynnydd;
- Cyfrannu at symud y sefydliad yn raddol tuag at ddarpariaeth sy'n adlewyrchu egwyddorion a disgwyliadau Safonau'r Gymraeg.

Meysydd blaenoriaeth ar gyfer cynllun gweithredu

Wrth lunio cynllun gweithredu, dylai sefydliadau ystyried yn benodol y meysydd canlynol:

- Gwasanaethau Digidol a Gwefannau
 - Cynyddu argaeledd cynnwys Cymraeg ar wefannau a systemau digidol;
 - Sicrhau bod gwasanaethau newydd yn cael eu datblygu'n ddwyieithog o'r cychwyn cyntaf;
 - Gwella ansawdd a hygyrchedd cynnwys Cymraeg ar-lein;
 - Datblygu apiau, ffurflenni a gwasanaethau hunanwasanaeth Cymraeg.
- Cyfryngau Cymdeithasol a Chyfathrebu
 - Mabwysiadu polisi clir ar ddefnyddio'r Gymraeg ar gyfryngau cymdeithasol;
 - Cynyddu amllder a gwelededd cynnwys Cymraeg;
 - Sicrhau bod y Gymraeg a'r Saesneg yn cael eu trin yn gyfartal mewn ymgyrchoedd cyfathrebu a marchnata.
- Gweithlu a Sgiliau Cymraeg
 - Datblygu strategaeth sgiliau Cymraeg;
 - Adolygu gofynion ieithyddol swyddi;
 - Cynyddu nifer y staff sydd â sgiliau Cymraeg mewn meysydd gwasanaeth allweddol;
 - Darparu cyfleoedd dysgu a datblygu Cymraeg i staff.
- Darparu Gwasanaethau
 - Gwella trefniadau ar gyfer delio â'r cyhoedd yn Gymraeg;
 - Cynyddu argaeledd gwasanaethau Cymraeg dros y ffôn, wyneb yn wyneb ac ar-lein;
 - Sicrhau bod deunyddiau, ffurflenni a chyhoeddiadau ar gael yn Gymraeg ar yr un pryd â'r Saesneg.

Dylai pob cynllun gweithredu gynnwys o leiaf:

Maes	Disgrifiad
Cam gweithredu	Beth fydd yn cael ei wneud
Canlyniad disgwylidig	Beth fydd yn newid o ganlyniad
Swyddog cyfrifol	Pwy sy'n gyfrifol am gyflawni'r gwaith
Amserlen	Pryd bydd y gwaith yn cael ei gwblhau
Mesur llwyddiant	Sut bydd cynnydd yn cael ei fesur
Statws	Heb ddechrau / Ar waith / Wedi cwblhau

Mae templed ar gyfer cynllun gweithredu wedi ei gynnwys yn Atodiad 1.

Monitro, Adrodd ac Adolygu'r Cynllun Iaith

Mae monitro ac adolygu effeithiol yn hanfodol er mwyn sicrhau bod ymrwymïadau'r cynllun iaith yn cael eu gweithredu'n gyson ac yn cyflawni'r canlyniadau a fwriedir. Mae monitro rheolaidd yn galluogi sefydliadau i asesu cynnydd, nodi meysydd i'w gwella a sicrhau bod y cynllun yn parhau i ddiwallu anghenion defnyddwyr gwasanaethau Cymraeg.

Dylai monitro'r cynllun iaith fod yn rhan annatod o drefniadau llywodraethu a rheoli perfformiad y sefydliad. Dylid defnyddio gwybodaeth fonitro i lywio penderfyniadau, cynllunio gwelliannau a sicrhau atebolrwydd ar bob lefel o'r sefydliad.

Dylai sefydliadau:

- Monitro gweithrediad ac effeithiolrwydd y cynllun iaith yn rheolaidd;
- Adrodd ar gynnydd i uwch reolwyr a strwythurau llywodraethu perthnasol;
- Casglu a dadansoddi gwybodaeth am weithrediad y cynllun;
- Adrodd i Gomisiynydd y Gymraeg yn unol â'r trefniadau y cytunwyd arnynt;
- Defnyddio canlyniadau monitro i gynllunio gwelliannau a datblygiadau pellach.

Monitro ac Adolygu

Dylai sefydliadau sefydlu trefniadau clir ar gyfer monitro cynnydd yn erbyn ymrwymïadau'r cynllun iaith.

Dylai sefydliadau:

- sefydlu trefniadau monitro rheolaidd;
- adrodd ar gynnydd yn erbyn ymrwymïadau'r cynllun;
- adolygu effeithiolrwydd y trefniadau gweithredu;
- defnyddio adborth, cwynion a gwybodaeth berfformiad i lywio gwelliannau;
- sicrhau bod cyfrifoldebau monitro a chydlynu wedi'u diffinio'n glir.
- gyflwyno gwybodaeth a diweddariadau rheolaidd i uwch reolwyr;
- cynnwys gwybodaeth am weithrediad y cynllun mewn trefniadau monitro corfforaethol;
- monitro cynnydd yn erbyn camau a thargedau o fewn y cynllun gweithredu ac ymrwymïadau perthnasol y cynllun;
- nodi unrhyw rwystrau neu risgiau sy'n effeithio ar weithrediad y cynllun;
- cymryd camau i fynd i'r afael ag unrhyw feysydd lle nad yw cynnydd yn ddigonol.

Mesur Effaith a Defnydd

Yn ogystal â monitro gweithgareddau, dylid asesu pa mor effeithiol yw'r trefniadau a'r ymyriadau sy'n ceisio cynyddu defnydd o'r Gymraeg.

Gall hyn gynnwys:

- casglu data ar ddefnydd gwasanaethau Cymraeg dros amser;
- cymharu lefelau defnydd cyn ac ar ôl cyflwyno ymyriadau neu fentrau newydd;
- profi dulliau gwahanol o hyrwyddo gwasanaethau Cymraeg;
- gosod targedau uchelgeisiol, realistig a mesuradwy ar gyfer cynyddu defnydd o'r Gymraeg;
- defnyddio adborth defnyddwyr i werthuso effaith gweithgareddau.

Dylai cynllun iaith gynnwys:

- Ymrwymiad i sicrhau cefnogaeth gorfforaethol lawn i weithredu'r cynllun iaith;
- Ymrwymiad i benodi uwch reolwr â chyfrifoldeb dros y cynllun;
- Ymrwymiad i ddyrannu cyfrifoldebau clir i reolwyr a swyddogion perthnasol;
- Ymrwymiad i benodi swyddog neu rôl gyfrifol am gydlynw, monitro ac adolygu'r cynllun;
- Ymrwymiad i gyhoeddi'r cynllun iaith ar wefan y sefydliad ac i'w wneud ar gael i staff;
- Ymrwymiad i ddarparu canllawiau, briffiau a hyfforddiant i staff ar weithredu'r cynllun;
- Ymrwymiad i fonitro gweithrediad y cynllun a chymryd camau i fynd i'r afael ag unrhyw fylchau neu broblemau;
- Disgrifiad o'r trefniadau llywodraethu, atebolrwydd a monitro a ddefnyddir i weithredu'r cynllun.

Adrodd i Gomisiynydd y Gymraeg

Dylai sefydliadau gydweithio â Chomisiynydd y Gymraeg i ddarparu gwybodaeth am weithrediad eu cynllun iaith.

Bydd hyn yn cynnwys:

- darparu adroddiad monitro blynyddol i Gomisiynydd y Gymraeg;
- cyflwyno'r adroddiad yn unol â'r amserlen a gytunwyd;
- darparu unrhyw wybodaeth ychwanegol y gofynnir amdani gan y Comisiynydd;
- ymateb i geisiadau am wybodaeth, adolygiadau neu holiaduron hunanasesu perthnasol.

Adolygu a Diwygio'r Cynllun

Dylai'r cynllun iaith gael ei adolygu o fewn pedair blynedd er mwyn sicrhau ei fod yn parhau'n berthnasol, yn gyfredol ac yn adlewyrchu anghenion y sefydliad a'i ddefnyddwyr.

Dylai sefydliadau:

- cynnal adolygiad ffurfiol o'r cynllun o fewn pedair blynedd i'w ddyddiad gweithredu;
 - adolygu'r cynllun yn gynharach os bydd newidiadau sylweddol i swyddogaethau, gwasanaethau neu strwythur y sefydliad;
 - defnyddio tystiolaeth monitro a pherfformiad i lywio'r adolygiad;
 - ymgynghori â Chomisiynydd y Gymraeg ynghylch unrhyw ddiwygiadau arfaethedig.
-

Ni ddylid gwneud unrhyw newidiadau i'r cynllun iaith heb gymeradwyaeth Comisiynydd y Gymraeg.

Dylai cynllun iaith gynnwys:

- Ymrwymiad i fonitro gweithrediad y cynllun iaith yn rheolaidd;
- Ymrwymiad i adrodd ar gynnydd i uwch reolwyr a strwythurau llywodraethu perthnasol;
- Ymrwymiad i ddarparu adroddiadau monitro a gwybodaeth berthnasol i Gomisiynydd y Gymraeg;
- Ymrwymiad i gasglu a defnyddio data i asesu effeithiolrwydd gwasanaethau a mentrau Cymraeg;
- Ymrwymiad i osod ac adolygu targedau perthnasol lle bo hynny'n briodol;
- Ymrwymiad i adolygu'r cynllun o leiaf unwaith bob pedair blynedd;
- Ymrwymiad i beidio â diwygio'r cynllun heb gymeradwyaeth Comisiynydd y Gymraeg;
- Disgrifiad o'r trefniadau monitro, adrodd ac adolygu a fydd yn cefnogi gweithrediad y cynllun.

Cwynion, Sylwadau ac Awgrymiadau

Mae adborth gan ddefnyddwyr gwasanaethau yn ffynhonnell bwysig o wybodaeth am effeithiolrwydd y cynllun iaith a safon y gwasanaethau Cymraeg a ddarperir gan y sefydliad. Dylai'r sefydliad annog defnyddwyr i gyflwyno cwynion, sylwadau ac awgrymiadau, a sicrhau bod trefniadau clir ar waith i ymdrin â hwy mewn modd amserol ac adeiladol.

Bydd y sefydliad yn mabwysiadu gweithdrefn gwynion priodol ar gyfer delio â chwynion sy'n ymwneud â gweithrediad y cynllun iaith neu ansawdd gwasanaethau Cymraeg.

Dylai sefydliadau:

- Sefydlu gweithdrefn glir ar gyfer gwneud cwynion, sylwadau ac awgrymiadau ynghylch gwasanaethau Cymraeg neu weithrediad y cynllun iaith;
- gyhoeddi manylion cyswllt perthnasol ar wefan y sefydliad ac mewn manau priodol eraill;
- bennu amserlenni clir ar gyfer cydnabod ac ymateb i gwynion;
- gofnodi a monitro cwynion sy'n ymwneud â'r Gymraeg;
- ddefnyddio gwybodaeth a geir o gwynion ac adborth i wella gwasanaethau.

Dylai cynllun iaith gynnwys:

- Ymrwymiad i lunio a mabwysiadu gweithdrefn gwynion ynghylch gwasanaethau Cymraeg neu weithrediad y cynllun iaith
 - Ymrwymiad i dderbyn ac ystyried cwynion, sylwadau ac awgrymiadau ynghylch gweithrediad y cynllun iaith;
 - Ymrwymiad i ymchwilio'n briodol i unrhyw gŵyn a dderbynnir a chymryd camau lle bo angen;
 - Ymrwymiad i nodi a gweithredu gwelliannau er mwyn lleihau'r risg o broblemau tebyg yn codi yn y dyfodol;
 - Ymrwymiad i gyhoeddi manylion cyswllt a gwybodaeth am y weithdrefn gwyno;
 - Ymrwymiad i ddefnyddio adborth defnyddwyr i lywio gwelliant parhaus yn y gwasanaethau Cymraeg;
 - Ymrwymiad i ddarparu hyfforddiant ac / neu ganllawiau i staff ar ddelio â chwynion yn ymwneud â'r Gymraeg;
 - Disgrifiad o'r trefniadau monitro ac adrodd a ddefnyddir i ddadansoddi cwynion ac adborth.
-

7 Casgliad

Dylai cynllun iaith newydd neu ddiwygiedig fod yn fwy na datganiad o fwriad. Dylai fod yn ddogfen strategol ac ymarferol sy'n llywio penderfyniadau, yn dylanwadu ar ddarpariaeth gwasanaethau ac yn cyfrannu at greu amgylchedd lle gall pobl ddefnyddio'r Gymraeg yn naturiol ac yn hyderus.

Wrth baratoi neu ddiwygio cynllun iaith, disgwylir i sefydliadau:

- adlewyrchu'r egwyddorion a'r disgwyliadau a nodir yn y canllaw hwn;
- sicrhau bod y Gymraeg a'r Saesneg yn cael eu trin yn gyfartal;
- fabwysiadu ymrwymïadau sy'n glir, yn ymarferol ac yn fesuradwy;
- cynllunio ar gyfer gwelliant parhaus mewn darpariaeth Gymraeg dros gyfnod y cynllun;
- datblygu cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yr ymrwymïadau yn cael eu gweithredu yn ymarferol;
- gosod sylfaen gadarn ar gyfer pontio i gyfundrefn Safonau'r Gymraeg yn y dyfodol, os a phan yn berthnasol.

Nid diben y canllaw hwn yw gosod model unffurf ar bob sefydliad. Dylai pob cynllun adlewyrchu swyddogaethau, gwasanaethau, maint a chyd-destun gweithredol y corff dan sylw. Fodd bynnag, dylai pob cynllun ddangos ymrwymiad clir i gryfhau'r ddarpariaeth Gymraeg a symud y sefydliad yn nes at yr egwyddor o gydraddoldeb ieithyddol.

Mae Comisiynydd y Gymraeg yn annog sefydliadau i ymgysylltu'n gynnar wrth baratoi neu ddiwygio eu cynlluniau iaith. Drwy gydweithio â swyddogion y Comisiynydd, gellir sicrhau bod cynlluniau yn realistig, uchelgeisiol ac yn addas i'r amgylchiadau gweithredol perthnasol.

Gall y gefnogaeth hon gynnwys:

- trafod ymrwymïadau arfaethedig a meysydd datblygu;
- rhannu enghreifftiau o arferion da ac ymrwymïadau model;
- cefnogi'r gwaith o lunio cynlluniau gweithredu a threfniadau monitro;
- trafod dulliau o ddatblygu darpariaeth Gymraeg a chynllunio ar gyfer y dyfodol.

Drwy gynllunio'n effeithiol, monitro cynnydd a gweithredu'n rhagweithiol, gall sefydliadau wneud cyfraniad sylweddol at y nod o sicrhau bod y Gymraeg yn rhan naturiol o ddarparu gwasanaethau a bywyd cyhoeddus yng Nghymru.

Mae'r [porth adnoddau](#) ar wefan Comisiynydd y Gymraeg yn cynnig adnoddau cefnogi amrywiol gan gynnwys canllawiau, astudiaethau achos ac arferion da. Am wybodaeth neu gyngor pellach, cysylltwch â swyddfa Comisiynydd y Gymraeg.

8 Atodiadau

Atodiad 1: Templed cynllun gweithredu

Amcan	Camau gweithredu	Amserlen	Cyfrifoldeb	Targedau

Atodiad 2: Rhestr Wirio

Maes	Ymrwymiad wedi'i gynnwys yn y cynllun	✓
Effaith Polisi a Mentrau Newydd	Cynnal Asesiadau Effaith leithyddol ar bolisiau a mentrau newydd	☐
	Sicrhau bod polisiau newydd yn gyson â'r cynllun iaith	☐
Datblygu Gwasanaethau Cymraeg	Darparu gwasanaethau cyfartal yn Gymraeg a Saesneg	☐
	Datgan yr ymrwymiad hwn yn gyhoeddus	☐
Gohebiaeth	Croesawu gohebiaeth yn Gymraeg	☐
	Ateb gohebiaeth Gymraeg yn Gymraeg	☐
	Sicrhau nad yw gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi	☐
	Darparu gohebiaeth dorfol Gymraeg ar yr un pryd â'r Saesneg	☐
Dewis iaith	Rhoi cyfle i ddefnyddwyr nodi eu dewis iaith	☐
	Cofnodi a defnyddio gwybodaeth am ddewis iaith	☐
Gwasanaethau Ffôn	Cyfarch galwadau yn Gymraeg	☐
	Darparu negeseuon awtomatig Cymraeg	☐
	Trefniadau i drosglwyddo galwadau i siaradwr Cymraeg	☐
Cyfarfodydd a Digwyddiadau	Hwyluso ac annog y defnydd o'r Gymraeg mewn cyfarfodydd a digwyddiadau	☐
	Gwahoddiadau i roi gwybod bod modd defnyddio'r Gymraeg mewn cyfarfodydd a digwyddiadau	☐
	Darparu deunyddiau cyfarfodydd yn Gymraeg	☐
Derbynfa	Darparu gwasanaeth derbynfa Cymraeg	☐
	Arddangos arwydd yn croesawu defnydd o'r Gymraeg	☐

Hunaniaeth Gorrforaethol	Defnyddio enw a logo Cymraeg y sefydliad yn gyson	☐
	Trin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal ar frandio a thempledi	☐
Arwyddion	Darparu arwyddion Cymraeg neu ddwyieithog	☐
	Sicrhau cydraddoldeb o ran maint ac amlygrwydd	☐
Gwefan a Gwasanaethau Digidol	Darparu gwefan Gymraeg weithredol	☐
	Diweddarau cynnwys Cymraeg a Saesneg ar yr un pryd	☐
Cyfryngau Cymdeithasol	Cyhoeddi cynnwys Cymraeg a Saesneg yn gyfartal	☐
	Ymateb yn Gymraeg i ymholiadau Cymraeg	☐
Apiau a pheiriannau Hunanwasanaeth	Sicrhau bod apiau a systemau hunanwasanaeth ar gael yn Gymraeg	☐
Dogfennau a Ffurflenni	Cyhoeddi dogfennau a ffurflenni yn Gymraeg	☐
	Dogfennau a ffurflenni Saesneg i gynnwys datganiad clir bod fersiynau Cymraeg ar gael	☐
Cyhoeddusrwydd a Marchnata	Trin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal mewn deunyddiau hyrwyddo	☐
	Hyrwyddo gwasanaethau Cymraeg yn rhagweithiol	☐
Hysbysiadau Swyddogol	Cyhoeddi hysbysiadau yn Gymraeg a Saesneg ar yr un pryd	☐
Gweithlu a Sgiliau Cymraeg	Asesu anghenion sgiliau Cymraeg swyddi newydd a gwag	☐
	Croesawu ceisiadau swydd yn Gymraeg	☐
	Cofnodi sgiliau Cymraeg staff	☐
	Cefnogi staff i ddatblygu eu sgiliau yn y Gymraeg	☐
Hyfforddiant Staff	Darparu hyfforddiant ar ofynion y cynllun iaith	☐

Mewnrwyd a Chyfathrebu Mewnol	Darparu cynnwys Cymraeg ar y fewnrwyd	☐
Trefniadau Cyfieithu	Sicrhau gwasanaethau cyfieithu a dehongli priodol	☐
Partneriaethau a Chaffael	Cynnwys gofynion Cymraeg mewn contractau perthnasol	☐
Cyhoeddusrwydd i'r Cynllun	Cyhoeddi'r cynllun iaith a'i wneud yn hawdd ei ganfod	☐
Cynllun Gweithredu	Cynnwys cynllun gweithredu gyda chyfrifoldebau ac amserlenni	☐
Monitro ac Adrodd	Monitro gweithrediad y cynllun yn rheolaidd	☐
	Uwch reolwr â chyfrifoldeb dros y cynllun	☐
	Adrodd i Gomisiynydd y Gymraeg yn ôl yr angen	☐
Cwynion	Gweithdrefn ar gyfer cwynion ynghylch gwasanaethau Cymraeg	☐
	Defnyddio adborth i wella gwasanaethau	☐